

# Pecyn Dogfen Cyhoeddus

Cyngor  
**sir ddinbych**  
**denbighshire**  
County Council



At: Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu  
Corfforaethol

Dyddiad: 9 Rhagfyr, 2014

Rhif Union: 01824712575

ebost: [dcc\\_admin@denbighshire.gov.uk](mailto:dcc_admin@denbighshire.gov.uk)

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL, DYDD MERCHER, 17 RHAGFYR 2014 am 9.30 am yn YSTAFELL BWYLLGORA 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN.**

Yn gywir iawn

G Williams  
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democraidd

## AGENDA

### 1 YMDDIHEURIADAU

### 2 DATGAN CYSYLLTIAD (Tudalennau 5 - 6)

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

### 3 MATERION BRYNS

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

### 4 COFNODION (Tudalennau 7 - 24)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 5 Tachwedd 2014.

### 5 PROSES Y GYLLIDEV 2015/16 (Tudalennau 25 - 36)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cyllid ac Asedau sy'n rhoi diweddarriad ar y broses i gyflawni'r gyllideb refeniw ar gyfer 2015/16.

**6 ADOLYGIAD SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU O GYNLLUNIO ARIANNOL**  
(Tudalennau 37 - 52)

Derbyn adroddiad gan y Pennaeth Cyllid ac Asedau (copi'n ynghlwm) ar adroddiad terfynol Swyddfa Archwilio Cymru ar gynllunio a rheolaeth ariannol Sir Ddinbych.

**7 CAFFAEL GWASANAETHAU ADEILADU - DIWEDDARIAD** (Tudalennau 53 - 72)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Archwilio Mewnol (copi ynghlwm) ar waith dilynol Archwilio Mewnol mewn perthynas â Chaffael Gwasanaethau Adeiladu.

**8 CYNLLUN GWELLA LLYWODRAETHU** (Tudalennau 73 - 82)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Archwilio Mewnol (copi ynghlwm) sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am Gynllun Gwella Llywodraethu'r Cyngor sy'n deillio o 'ddatganiad llywodraethu blynnyddol' y Cyngor 2013/14 – 'Sicrhau llywodraethu da a gwelliant parhaus'.

**9 TALIAD ARIANNOL I RAI SY'N GADAEL GOFAL - DIWEDDARIAD**  
(Tudalennau 83 - 90)

Derbyn diweddariad ar lafar ar gynnydd y Cynllun Gweithredu a gynhwysir yn yr adroddiad Archwilio Mewnol ar Daliadau Ariannol i'r Rheiny sy'n Gadael Gofal. (Mae copi o'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ar 5 Tachwedd 2014 ynghlwm).

**10 ADBORTH O'R CYFARFOD CYDRADDOLDEB CORFFORAETHOL**

Derbyn adroddiad ar lafar gan y Cyngorydd M.L. Holland ynglŷn â Chyfarfod Cydraddoldeb Corfforaethol.

**11 RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL**  
(Tudalennau 91 - 94)

Ystyried Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor (copi ynghlwm).

## **AELODAETH**

### **Y Cynghorwyr**

Joan Butterfield  
Stuart Davies  
Peter Duffy

Martyn Holland  
Gwyneth Kensler  
Jason McLellan

### **Aelod Lleyg**

Paul Whitham

### **COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth  
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd  
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## Cod Ymddygiad Aelodau

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,  
(enw)

\*Aelod /Aelod cyfetholedig o  
(\*dileuer un)

Cyngor Sir Ddinbych

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant **\*personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-  
(\*dileuer un)

Dyddiad Datgeli:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

Llofnod

Dyddiad

**Code of Conduct for Members**

**DISCLOSURE AND REGISTRATION OF INTERESTS**

I, (name)

a \*member/co-opted member of  
(\*please delete as appropriate)

**Denbighshire County Council**

**CONFIRM** that I have declared a **\*personal / personal and prejudicial** interest not previously declared in accordance with the provisions of Part III of the Council's Code of Conduct for Members, in respect of the following:-  
(\*please delete as appropriate)

Date of Disclosure:

Committee (*please specify*):

Agenda Item No.

Subject Matter:

Nature of Interest:

Signed

Date

# Eitem Agenda 4

## PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1A, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mercher, 5 Tachwedd 2014 am 9.30 am.

### YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr J.M. McLellan (Cadeirydd), J. Butterfield, P.C. Duffy, M.L. Holland, G.M. Kensler a Mr P. Whitham (Aelod Lleyg).

Roedd y Cynghorwyr Julian Thompson-Hill a Barbara Smith yn bresennol fel arsylwyr.

### HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd(GW), Pennaeth Archwilio Mewnol (IB), Pennaeth Cymorth Cwsmeriaid ac Addysg (JW), Prif Gyfrifydd (RW), Swyddog Caffael Strategol Dros Dro (SA), Swyddog Gwella Corfforaethol (NK), Swyddog Cwynion Corfforaethol (COG), Cynrychiolwyr Swyddfa Archwilio Cymru (GB) a Gweinyddwr Pwyllgor (CIW).

### 1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Stuart Davies a Hugh Irving.

### 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Eitem 6 ar yr Agenda: Adolygiad o'r Gofrestr Risg Corfforaethol – Datganwyd cysylltiad personol gan y Cynghorydd M.L. Holland. Y rheswm am y datganiad oedd mai ef oedd Cyfarwyddwr Asiantaeth Menter Sir Ddinbych.

### 3 MATERION BRYS

Yn unol â gofynion Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, nododd y Cadeirydd ei fwriad i gynnwys y mater canlynol i'w drafod oherwydd bod angen rhoi sylw brys iddo o dan ddarpariaethau Rhan II:-

#### (i) Adroddiadau Gwybodaeth: -

(a) Cynnydd ar Gynllun Sicrwydd Archwilio Mewnol Blynnyddol 2014/15 - Mewn ymateb i gwestiwn gan Mr P. Whitham yngylch yr hunanasesiad a gynhaliwyd gan Archwilio Mewnol, cytunodd y Pennaeth Archwilio Mewnol (PAM) y gellid cyflwyno'r Cynllun Gweithredu sy'n codi o'r asesiad o ran gwella'r gwasanaeth i'r cyfarfod Pwyllgor ym mis Ionawr, 2015.

*(IB i Weithredu)*

(b) Adrodd ar y Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd Anifeiliaid - Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan Mr P. Whitham yngylch yr amserlen ar gyfer dosbarthu'r ddogfen, a'r angen posibl i godi proffil yr adroddiad, eglurodd yr AEI bod cyflwyniad

yr adroddiad yn rhan o broses i fynd i'r afael ag unrhyw Adroddiadau Rheoleiddio Allanol nodedig.

**(ii) Gwahoddiad i Gwrs Llywodraethu Da**

Hysbysodd HLHDS y Pwyllgor y byddai'n dosbarthu gwahoddiad, a gafwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru, am enwebiadau ar gyfer pum cynrychiolydd i fynychu Cwrs Llywodraethu Da, a gynhelir yn Llanrwst ar 11 Rhagfyr 2014.

**(GW i Weithredu)**

**4 COFNODION**

**(a) Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 3 Medi 2014.**

Materion yn codi:-

6. Adroddiad Blynnyddol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol - Hysbyswyd yr Aelodau y byddai Adroddiad Blynnyddol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn cael ei gynnwys ar Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor ar gyfer y cyfarfod ar 3 Chwefror, 2015.

**(JM (Cadeirydd) a GW i Weithredu)**

5. Diweddariad Ysgol Uwchradd Catholig y Bendigaid Edward Jones - Mewn ateb i gwestiwn gan y Cadeirydd ynghylch y cais i gyflwyno'r adroddiad Archwilio Mewnol ar reolaeth ariannol ysgolion i'r Pwyllgor, cadarnhaodd y PAM y gellid cyflwyno'r adroddiad i gyfarfod y Pwyllgor ym mis Rhagfyr, 2014.

**(IB i Weithredu)**

**PENDERFYNWYD – y dylid derbyn a chymeradwyo'r Cofnodion fel cofnod cywir.**

**(b) Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 29 Medi 2014.**

Materion yn codi:-

6. Cynllun Gwella Llywodraethu - Eglurodd y PAM y byddai'r diweddariad ar y cynnydd o ran y Strategaeth Caffael yn cael ei ymgorffori yn yr Adroddiad Diweddaru Adeiladu a Gwasanaethau sydd i'w gyflwyno i gyfarfod y Pwyllgor ym mis Rhagfyr, 2014.

**(IB i Weithredu)**

**PENDERFYNWYD – y dylid derbyn a chymeradwyo'r Cofnodion fel cofnod cywir.**

**5 PROSES Y GYLLIDEB 2015/16**

Roedd adroddiad, ac atodiad cyfrinachol, gan y Pennaeth Cyllid ac Asedau (PCA), a oedd yn rhoi diweddariad ar y broses i gyflawni'r gyllideb refeniw ar gyfer 2015/16, wedi ei ddosbarthu eisoes.

Cyflwynodd y PCA yr adroddiad a oedd yn rhoi diweddariad ar y broses i gyflwyno'r gyllideb refeniw ar gyfer 2015/16, a oedd wedi symud i'w ail gam ers y diweddariad diwethaf. Roedd Atodiad 1 yn dangos y darlun o broses y gyllideb, ac roedd tabl o ddigwyddiadau allweddol yn y broses wedi'i gynnwys yn yr adroddiad

Daeth y rownd gyntaf o weithdai cyllideb i gasgliad ar 22 Medi. Roedd llawer yn bresennol yn y gweithdai, gydag ystod eang o drafodaeth a nifer o gwestiynau yn cael eu gofyn. Gofynnwyd i Aelodau fynegi barn yngylch a ddylai cynigion arbed gael eu 'mabwysiadu', 'datblygu', neu eu 'gohirio'. Yn ogystal, aethpwyd ag Aelodau drwy gyllideb pob gwasanaeth a'u gwahodd i wneud sylwadau ar bob un. Cafodd cynigion y dynododd yr aelodau y buasent yn fodlon eu mabwysiadu eu cyflwyno i'r Cyngor Sir i'w cymeradwyo ar 9 Medi. Daeth y cynigion a gymerwyd i'r Cyngor fel arbedion Cam 1 i gyfanswm o £3.7m ar gyfer 15/16 ac £870k ar gyfer 16/17.

Roedd strategaeth cyllideb y Cyngor wedi nodi bwlch yn y gyllideb o hyd at £18m dros ddwy flynedd. Cafodd hyn ei lywio'n bennaf gan arwyddion y byddai setliad cyllido'r Cyngor yn cael ei dorri o 4.5%. Cafodd y Setliad Llywodraeth Leol Drafft ei gyhoeddi ar 8 Hydref, ac roedd y setliad wedi nodi y byddai'r gostyngiad arian parod i'r gyllideb yn 3.7% a oedd yn cyfateb i £5.3m. Gyda'r pwysau o ran costau, roedd yn rhaid i'r Cyngor ariannu'r bwlch yn y gyllideb ar gyfer 2015/16 a oedd bellach tua £8.2m ac amcangyfrifir y bydd tua £8.8m yn 2016/17. Amlygodd y CA bwysau posibl a allai godi o ganlyniad i addasiadau, i mewn ac allan, sy'n gysylltiedig â chyllid grant penodol. Cyfeiriwyd yn benodol at yr effaith o amgylch y Gronfa Gydweithredu Rhanbarthol ar gyfer y rhaglen Gofal Cymdeithasol. Ar gais y Cadeirydd, cytunodd y CA i ddarparu manylion am y goblygiadau ar y gyllideb mewn perthynas â phwysau'r cyllid grant.

Roedd ail gam proses y gyllideb bron wedi'i gwblhau. Roedd aelodau wedi nodi cynigion a oedd yn gyfanswm o £3.2m ar gyfer 2015/16 ac £1.8 miliwn ar gyfer 2016/17 a fyddai'n ceisio cymeradwaeth ym mis Rhagfyr. Os byddai'r holl gynigion a gymerwyd i'r gweithdy terfynol ym mis Hydref yn cael eu hargymhell i'w cymeradwyo, yna byddai'r cyfansymiau yn £4.0m ar gyfer 2015/16 a £2.1m ar gyfer 2016/17 o Gam 2.

Byddai cynigion Cam 2 yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet ac yna i'r Cyngor i'w cymeradwyo ym mis Rhagfyr. Byddai Cam 3 yn ystyried cynigion terfynol i gydbwyso cyllideb 2015/16, gan gynnwys opsiynau ar gyfer Treth y Cyngor ac unrhyw ddefnydd o gronfeydd wrth gefn. Byddai'r materion hyn yn cael eu trafod yng Ngweithdy'r Aelodau ym mis Rhagfyr cyn cael cymeradwaeth derfynol ym mis Chwefror. Byddai Cam 3 o'r broses hefyd yn parhau i ddatblygu opsiynau arbedion ar gyfer 2016/17. Roedd manylion y broses ymgynghori a fabwysiadwyd yng nghyswilt y toriadau yn y gyllideb wedi cael eu crynhoi yn yr adroddiad.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at gylch gwaith y Pwyllgor i archwilio'r broses gosod cyllideb y teimlai ei fod wedi bod yn agored ac yn dryloyw. Fodd bynnag, roedd wedi bod yn

ymwybodol o faterion a godwyd mewn perthynas â'r Adolygiad o Wasanaethau Cynghori ar Les. Tynnodd sylw at y goblygiadau ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau a'r gymuned ehangach, y risgiau a nodwyd yng ngweithdy cyllideb mis Gorffennaf ynghylch diswyddiadau, a'r Flaenoriaeth Gorfforaethol i wella'r economi leol.

Cyfeiriwyd at yr adolygiad a gynhaliwyd gan wahanol Grwpiau, gan gynnwys sefydliadau trydydd sector. Cwestiynodd y Cadeirydd y rheswm dros ystyried dim ond un o'r modelau o dan yr adolygiad a gyflwynwyd i'r Aelodau er trafodaeth. Amlinelloedd y CA y broses a ddefnyddiwyd ac a fabwysiadwyd ar gyfer ystyried opsiynau, a chytunodd i ddarparu copi o'r adroddiad Adolygiad o Wasanaethau Cynghori ar Les i Aelodau'r Pwyllgor. Cytunodd yr Aelodau y dylai'r adolygiad o'r broses a ddefnyddiwyd o ran yr Adolygiad Gwasanaethau Cynghori Lles gael ei wneud gan y Pwyllgor, ynghyd â chynigion yn ymwneud â Hawliau Tramwy a oedd wedi'u hamlygu gan y Cynghorydd G.M. Kensler.

Teimlai Mr P. Whitham, gan fod cylch gwaith y Pwyllgor yn cynnwys adolygu risgiau, ac y byddai risg cynhenid sy'n deillio o'r broses o bennu cyllideb, y gellid cymryd y cyfle i sicrhau bod y broses yn gadarn a bod yr wybodaeth a roddir i Aelodau i wneud penderfyniadau yn briodol.

Darparodd y CA fanylion am y risgiau sy'n deillio o weithredu penderfyniadau a wnaed o ran y broses o bennu cyllideb a thoriadau 2015-16 a 2016-17. Cadarnhaodd fod mecanwaith ar waith i ailymweld â thoriadau a nodwyd, a oedd yn cynnwys adroddiadau misol i'r Cabinet, a rhoddodd hyn y cyfle i nodi unrhyw ddiffyg cyflawniad.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd G.M. Kensler, cytunodd y CA y gellid darparu rhestr o wasanaethau wedi'u craffu gan y gweithdai cyllideb, gan gynnwys dyddiadau. Eglurodd hefyd y gallai taliadau ar gyfer casglu gwastraff gwyrdd gael eu cynnwys o fewn biliau treth gyngor y trigolion sydd am ddefnyddio'r gwasanaeth.

Amlinelloedd yr HLHDS ddiben y broses Rhyddid a Hyblygrwydd, i herio gwasanaethau ynghylch y modd y maent yn darparu gwasanaethau, ac yna cyflwyno opsiynau i Aelodau i gynorthwyo gyda'r broses o wneud penderfyniadau o ran y gyllideb. Roedd Aelodau hefyd wedi cael gwybodaeth lawn ar gyllidebau gwasanaeth er mwyn iddynt allu ceisio gwybodaeth ychwanegol neu awgrymu mesurau amgen. Cyfeiriodd at Brotocol y Gyllideb a oedd wedi ei gytuno gan y Cyngor ar 4 Tachwedd, 2014 a roddodd y cyfle i Aelodau archwilio awgrymiadau eraill.

Eglurodd y Cadeirydd bod ganddo ef ac Aelodau'r Pwyllgor bryderon ynghylch rhai o elfennau proses y gyllideb o ran darparu gwybodaeth ar wahanol fodelau o ddarpariaeth a ddaw o ryddid a hyblygrwydd. Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor â'r awgrym canlynol a gyflwynwyd gan yr HLHDS, sef: -

Er mwyn profi a cheisio sicrwydd ynghylch tryloywder proses y gyllideb, mae'r Pwyllgor yn gofyn am ragor o wybodaeth am opsiynau amgen a ystyriwyd yn ystod y safbwytiau am Hawliau Lles, fel enghraifft gynrychioliadol. Cytunodd yr Aelodau hefyd y dylid cynnwys cynnig yr Hawliau Tramwy.

Ar gais y Cadeirydd, cytunodd y CA y dylid darparu gwybodaeth mewn perthynas â grantiau.

**PENDERFYNWYD - bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol:** -

- (a) *yn derbyn ac yn nodi cynnwys yr adroddiad.*
- (b) *yn ceisio rhagor o wybodaeth am opsiynau amgen a ystyriwyd yn ystod y safbwytiau am Hawliau Lles a Hawliau tramwy, fel enghreifftiau cynrychioliadol.*
- (c) *yn gofyn bod y CA yn rhoi manylion am y goblygiadau ar y gyllideb mewn perthynas â'r pwysau cyllid grant, ac*
- (d) *yn cytuno y gellid darparu rhestr o wasanaethau wedi'u craffu gan y gweithdai cyllideb, gan gynnwys dyddiadau.*

**(RW i weithredu)**

## 6 ADOLYGIAD COFRESTR RISG CORFFORAETHOL

Adroddiad gan y Pennaeth Busnes, Cynllunio a Pherfformio (HBPP), a ofynnodd i ystyried y fersiwn wedi'i ddiweddar u'n ffurfiol o'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol (CRR) y cytunwyd arno ym Mriff y Cabinet, a ddosbarthwyd ynghynt.

Gyda chymorth cyflwyniad PowerPoint, oedd yn rhoi manylion am y system VERTO sydd ar gael i'r holl Aelodau ar Fewnrwyd y Cyngor, darparodd y Swyddog Gwella Corfforaethol (CIO) grynodeb manwl o'r adroddiad.

Galluogodd y CRR i'r cyngor reoli'r tebygolrwydd ac effaith y risgiau roedd yn eu hwynebu drwy werthuso effaith unrhyw weithredoedd cyfredol i liniaru risg, a chofnodi dyddiadau cau a chyfrifoldebau ar gyfer gweithredoedd pellach a ddylai sicrhau rheolaeth well. Cafodd ei ddatblygu gan CET ac yn eiddo iddynt, ac roedd y broses adolygu wedi cael ei nodi yn yr adroddiad.

Cafodd y Gofrestr ei gwirio'n ffurfiol gan y Cabinet a gan CET ddwywaith y flwyddyn. Byddai unrhyw risgiau newydd neu gynyddol sylweddol a nodwyd yn cael eu cyflwyno i'r Tîm Rheoli Corfforaethol, drwy'r Tîm Gwella Corfforaethol. Yna, byddai CET yn penderfynu a ddylid cynnwys y risg yn y CRC.

Yn dilyn pob adolygiad ffurfiol o'r Gofrestr, byddai'r ddogfen ddiwygiedig yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol. Byddai'r gweithredoedd a nodir er mwyn delio â risgiau corfforaethol yn cael eu cynnwys mewn Cynlluniau Gwasanaethau, lle y bo'n briodol, a fyddai'n galluogi i'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad fonitro cynnydd. Dylid amlyu unrhyw faterion perfformiad mewn perthynas â darparu'r digwyddiadau fel rhan o broses Herio Perfformiad Gwasanaethau.

Roedd Archwiliad Mewnol y Cyngor (IA) yn darparu sicrwydd annibynnol ar effeithiolrwydd dulliau rheoli mewnol a'r dulliau sydd wedi'u gosod er mwyn lliniaru risgiau yn y cyngor. Roedd hefyd yn cynnig her annibynnol i sicrhau bod egwyddorion a gofynion rheoli risg yn cael eu defnyddio'n gyson ym mhob rhan o'r

Cyngor. Roedd Gwasanaethau Archwilio Mewnol hefyd yn defnyddio gwybodaeth o'r gwasanaethau a'r Gofrestr Risg Corfforaethol er mwyn penderfynu ar eu raglen gwaith i'r dyfodol.

Cyfeiriodd y CIO at Atodiad 1 yr adroddiad a oedd yn cynnwys y prif newidiadau a wnaed i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol, ynghyd ag unrhyw bwyntiau o bwys. Darparwyd crynodeb o'r Camau Gweithredu canlynol gan y CIO: -

- Diwygiad i DCC007: 'Y risg bod gwybodaeth hanfodol neu gyfrinachol yn cael ei cholli neu ei datgelu'.
- Risg newydd, DCC027: 'Ni chaiff y risg bod y penderfyniadau sy'n angenrheidiol i alluogi darpariaeth o gyllideb gytbwys ei gymryd neu ei weithredu yn ddigon cyflym'.
- Risg newydd, DCC029: 'Risg o her Iwyddiannus ein bod yn amddifadu pobl o'u rhyddid yn anghyfreithlon'.

Ymatebodd y CIO i gwestiynau gan Aelodau, ac amlygwyd y materion canlynol: -

- DCC013: 'Y risg o rwymedigaethau ariannol ac enw da sylweddol yn deillio o reoli sefydliadau o Hyd Braich'. Cwestiynodd y Cyngorydd G.M. Kensler ddyddiad cyflwyno disgwyliedig o fis Mawrth 2015 ar gyfer y toriadau arfaethedig i'r gyllideb. Cadarnhaodd y CIO fod y risg a nodwyd yn ymwneud â rheolaeth y sefydliad.
- DCC018: 'Y risg na fydd buddiannau rhaglen a phrosiect yn cael eu gwireddu'n llawn'. Cadarnhaodd y COI fod y cam gweithredu wedi sicrhau bod y prosiectau a weithredir yn gwireddu'r manteision y cytunwyd gan yr Achos Busnes yn wreiddiol.
- DCC021: 'Y risg nad yw partneriaethau a rhngwynebau effeithiol rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chyngor Sir Ddinbych (CSDd) yn datblygu, gan arwain at camleoliad sylweddol rhwng cyfeiriad strategol a gweithredol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chyngor Sir Ddinbych'. Cadarnhaodd y CIO y byddai'r risg yn cael ei adolygu ym mis Mawrth neu fis Ebrill, 2015.
- DCC028: 'Y risg bod y gwasanaethau rydym yn eu graddio yn ôl yn cael mwy o effaith negyddol na'r disgwyl'. Eglurwyd y byddai'r risg iau lliniarol yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor yn dilyn cyfnod o chwe mis. Mewn ymateb i bryderon a fynegwyd y gallai'r tri risg gweddilliol coch a nodwyd fod yn destun adroddiadau rheolaidd, darparodd yr HIA fanylion am y cylch gwaith Archwilio Mewnol wrth fonitro risg iau gweddilliol uchel.

Darparodd yr HLHDS fanylion yn ymwneud â rôl a chylch gwaith y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, sef sicrhau bod proses a gweithdrefn Rheoli Risg priodol ar waith, ac y byddai rheoli risg iau unigol yn swyddogaeth craffu ar berfformiad. Cadarnhaodd y gellid argymhell materion gan y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar gyfer craffu.

**PENDERFYNWYD - bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol:** -

(a) nodi'r hyn a ddilëir, ychwanegiadau a newidiadau i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol, ac

(b) yn gofyn bod sylwadau'r Aelodau yn ystod y ddadl yn cael eu nodi'n unol â hynny.

**(GW ac NK i Weithredu)**

Hysbysodd y Cadeirydd y Pwyllgor y byddai'r eitemau ar yr agenda sy'n weddill yn cael eu cymryd yn y drefn ganlynol:- 9, 10, 11, 12, 7, 8, 13, 14, 15.

## 7 TALIAD ARIANNOL I RAI SY'N GADAEL GOFAL - DIWEDDARIAD

Adroddiad gan y Pennaeth Archwilio Mewnol (HIA) (mae copi yn amgaeedig) sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd gyda'r cynllun gweithredu a gynhwyswyd yn yr adroddiad Archwilio Mewnol ar Daliadau Ariannol i'r Rheini sy'n Gadael Gofal a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2014.

Roedd adroddiad wedi'i gyhoeddi gan Archwilio Mewnol ar Daliadau Ariannol i'r Rheini sy'n Gadael Gofal ym mis Mawrth 2014, a oedd wedi cynnwys Cynllun Gweithredu gyda phedwar Mater Cymedrol ac 14 o gamau gweithredu i fynd i'r afael â nhw. Ar 15 Ebrill 2014, mynegodd y Pwyllgor rai pryderon o ran bod y broses dalu bresennol yn anghynaladwy ac felly bu i'r Pwyllgor ofyn i Archwilio Mewnol gynnal adolygiad dilynol ac adrodd yn ôl iddynt.

Rhoddodd Atodiad 1 ddiweddarriad ar gynnydd y cynllun gweithredu a ddangosodd mai dim ond pump o'r camau gweithredu oedd wedi eu cwblhau, gyda thri arall ar y gweill. Nid roddwyd sylw i chwech o'r camau gweithredu, gan gynnwys y prif fater a godwyd (Mater 1), a oedd yn gofyn am adolygiad llawn o'r broses ar gyfer gwneud taliadau i bobl sy'n gadael gofal. Yn dilyn trafodaethau cychwynnol, ni fu unrhyw gyswilt rhwng y Gwasanaethau Cymdeithasol a Refeniw a Budd-daliadau er mwyn trafod dull corfforaethol. Roedd y diffyg cynnydd o ran y mater allweddol hwn hefyd wedi cael effaith ar faterion eraill o fewn y cynllun gweithredu. Bydd Archwilio Mewnol yn cynnal adolygiad pellach ym mis Ionawr 2015.

Cytunodd y Cadeirydd â'r farn a fynegwyd gan y pennawd gweithredu, nad oedd cyfarfod wedi ei gynnal rhwng y Pennaeth Refeniw a Budd-daliadau a'r Rheolwr Gwasanaeth - Plant sy'n Derbyn Gofal, wedi cael effaith andwyol ar rai o'r camau gweithredu eraill a nodwyd. Mynegwyd pryderon ynghylch y diffyg cynnydd o ran gweithredu'r camau y cytunwyd arnynt, a methiant i gwrdd â therfynau amser, gan y Pwyllgor, a chyfeiriwyd yn benodol at Rif Gweithredu 1 heb ei gwblhau. Awgrymodd y dylai mwy o fanylion cefndir a chyd-destun gael eu darparu gan y Gwasanaethau Cymdeithasol ar yr effaith roedd y diffyg camau gweithredu yn ei gael ar y defnyddwyr gwasanaeth. Cadarnhaodd yr HIA fod y broses bresennol a ddefnyddiwyd wedi cael ei nodi fel hen-ffasiwn ac angen ei adolygu.

Cefnogodd y Pwyllgor awgrym y Cynghorydd J. Butterfield y dylid gwahodd y Pennaeth Refeniw a Budd-daliadau a'r Rheolwr Gwasanaeth - Plant sy'n Derbyn Gofal i fynychu'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ym mis Rhagfyr 2014 i egluro'r diffyg cynnydd a rhoi sicrwydd bod y cynllun gweithredu bellach ar waith. Gofynnodd yr Aelodau bod adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor gan ddarparu mwy o fanylion a chyd-destun ar yr effaith roedd y diffyg gweithredu yn ei gael ar y defnyddwyr gwasanaethau.

## **PENDERFYNWYD - bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol:** -

- (a) *yn derbyn yr adroddiad.*
- (b) *yn cytuno i wahodd y Pennaeth Refeniw a Budd-daliadau a'r Rheolwr Gwasanaeth - Plant sy'n Derbyn Gofal i fynychu cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar 17 Rhagfyr, 2014, ac*
- (c) *yn gofyn bod adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor er mwyn darparu mwy o fanylion a chyd-destun ar yr effaith roedd y diffyg gweithredu yn ei gael ar ddefnyddwyr gwasanaethau.*

**(IB i Weithredu)**

## **8 POLISI TWYLL A LLYGREDD**

Mae adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democraidd (HLHDS) wedi'i ddosbarthu'n flaenordol.

Cyflwynodd yr HLHDS yr adroddiad ac eglurodd fod y Cyngor yn cyflogi dros 4,000 o staff ac yn gwario tua £250 miliwn y flwyddyn. Comisiynodd a darparodd amrywiaeth eang o wasanaethau i unigolion a chartrefi ac mae wedi gweithio gydag ystod eang o sefydliadau yn y sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol.

Tynnodd sylw at y risg barhaus o golled o ganlyniad i dwyll a llygredd o ffynonellau mewnol ac allanol, a'r risg o Iwgrwobrwyd wrth i'r Cyngor ddarparu a chaffael nwyddau, gwaith a gwasanaethau. Cafodd systemau cymesur eu cyflwyno i leihau'r risgiau a chafodd y rhain eu hadolygu'n gyson. Cafodd y systemau a'r gweithdrefnau eu nodi yn y canllawiau ym mharagraff 5.12.

Cafodd Polisi diwygiedig drafft, Atodiad 1, a oedd yn ddogfen hir sengl, ei rannu'n ddwy ddogfen. Roedd Atodiad 1 yn ddatganiad o Bolisi yn cynnwys y prif egwyddorion y byddai'r Cyngor yn mynd i'r afael â thwyll, llwgrwobrwyd a llygredigaeth. Roedd Atodiad 2 yn ddogfen gyfarwyddyd yn egluro cefndir a'r polisiau a'r gweithdrefnau sydd ar waith i gefnogi'r Polisi. Darparodd yr HLHDS grynodeb manwl o gynnwys yr Atodiadau.

Pwysleisiodd bwysigrwydd bod unrhyw bolisi sy'n honni i wrthsefyll y bygythiad o dwyll a llygredd yn cael ei gadw'n gyfoes a'i adolygu yng ngoleuni datblygiadau deddfwriaethol, technolegol a phroffesiynol newydd. Byddai'r polisi yn cael ei adolygu bob tair blynedd hyd nes ceid unrhyw newidiadau penodol mewn deddfwriaeth. Eglurwyd y byddai'r Adran Gwaith a Phensiynau yn cynnal gwasanaeth unigol ymchwilio i dwyll o fis Ebrill, 2015 ac y byddai'r Polisi yn cael ei ddiwygio yn unol â hynny.

Cafodd teitl y polisi ei ddiwygio i gynnwys cyfeiriad at Iwgrwobrwyd, er mwyn ystyried newidiadau i ddeddfwriaeth a ddaeth yn sgil Deddf Llwgrwobrwyd 2010. Ystyriwyd canllawiau arfer gorau gan y canllawiau hefyd, megis y CIPFA - "Llyfr Coch 2 - Rheoli'r Risg o Dwyll".

Darparodd y Datganiad Polisi a'r gweithdrefnau ategol neges glir na fyddai'r Cyngor yn goddef unrhyw amhriodoldeb gan weithwyr, Aelodau Etholedig na sefydliadau trydydd parti. Cadarnhaodd yr HLHDS ei bod yn bwysig cynnal gwyliadwriaeth a bod yr holl weithwyr, Aelodau Etholedig a phartneriaid yn ymwybodol o'r broses ar gyfer adrodd am bryderon neu amheuon. Mae Atodiad 2 yn rhoi cyngor clir ar y broses adrodd. Cafwyd datganiad clir o ymrwymiad y Cyngor i gymryd camau gorfodi cadarn lle caiff gweithgaredd anghyfreithlon neu lygredig ei ganfod. Cadarnhawyd y byddai'r Cyngor yn parhau i addasu a mabwysiadu dull rhagweithiol i atal gweithgareddau twyllodrus, ac y byddai Archwilio Mewnol yn cynnal adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd o rheolaethau.

Mewn ymateb i awgrym gan y Cyngorydd H.L. Holland y dylid gwneud bwriad y Cyngor i ddelio ag unrhyw gamymddygiad cysylltiedig yn gliriach ac yn fwy cadarn, cytunodd yr HLHDS bod angen diwygio Rhif 8 o'r Datganiad Polisi, Tudalen 55, i ddarllen "Nid yw'r Cyngor yn cymryd rhan, ac ni fydd yn cymryd rhan, yn anuniongyrchol neu fel arall, mewn unrhyw weithgarwch sy'n annog llwgrwobrwy. Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i atal, osgoi a darganfod llwgrwobrwy. A gall Rhif 9 gael ei gynnwys i ddarllen "Nid yw'r Cyngor yn goddef dim twyll, lladradd, llygredd na llwgrwobrwy".

Mewn ymateb i gwestiwn gan Mr P. Whitham, cytunodd yr HLHDS y dylid diwygio cyfeiriad at Aelodau Etholedig yn Atodiad 2 i gynnwys Aelodau Cyfetholedig, neu gynnwys diffiniad o Aelodau. Nododd Mr Whitham hefyd nad oedd unrhyw gyfeiriad at Lwgrwobrwy, dim ond at Dwyll a Llygredd, ar Dudalen 18 o Atodiad 1 a Thudalen 32 o Atodiad 3.

**PENDERFYNWYD - bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, yn amodol ar y materion a godwyd, yn nodi cynnwys y Polisi Gwrth Dwyll, Llwgrwobrwy aeth a Llygredd drafft ac yn ei argymhell i'w gymeradwyo gan y Cabinet.**

**(GW i Weithredu)**

## 9 RHEOLAU'R WEITHDREFN GONTRACTAU

Roedd adroddiad gan y Rheolwr Caffael Strategol Dros Dro (ASPM) eisoes wedi'i ddosbarthu.

Cyflwynodd yr adroddiad y Rheolau Gweithdrefn Contractau drafft i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar gyfer ei adolygu a rhoi sylwadau arno cyn ei gyflwyno i'r Cyngor llawn i'w gymeradwyo ar 9 Rhagfyr 2014, fel y mae'r manylion yn dangos yn Atodiad 1 o'r adroddiad.

Nid oedd y Rheolau Gweithdrefnau Contract presennol wedi cael eu hadolygu'n llawn ers eu mabwysiadu yn 2004. Roedd y ddogfen wedi caei ei hadolygu gan y Rheolwr Caffael Strategol Dros Dro a Dirprwy Swyddog Monitro yn unol â deddfwriaeth gyfredol a'r gweithdrefnau caffael arferion gorau diweddaraf.

Mae ychwanegu cymalau sy'n gwneud ystyried cymalau Budd i'r Gymuned ym mhob contract uwchlaw £2,000,000 wedi cyfrannu at flaenoriaeth y Bwrdd

Uchelgais Economaidd a Chymunedol. Yr isaf yw'r trothwyon ariannol, byddai'n galluogi i fwy o gyfleoedd gwerth tendro llai i gael eu hysbysebu a fyddai'n caniatáu i fusnesau bach a chanolig lleol i fod yn fwy ymwybodol o gyfleoedd. Cynhaliwyd ymgynghoriad gyda'r holl feisydd Gwasanaeth o ran adolygu Rheolau Gweithdrefn y Contractau. Roedd yr holl sylwadau wedi cael eu hadolygu a'u hystyried lle bo'n briodol ac yn berthnasol i ofynion y ddogfen.

Cadarnhaodd ASPM y gallai'r brif risg godi o Adrannau nad ydynt yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Gweithdrefn Contractau newydd a all amharu ar Reolau Caffael y DU a'r UE. Byddai rhaglen hyfforddi'n cael ei darparu ar gyfer pob maes gwasanaeth yn dilyn gweithredu'r dogfennau diwygiedig i ddiffinio ei gofynion a'r goblygiadau o beidio â chydymffurfio. Roedd y Rheolau Gweithdrefn Contractau diwygiedig, Atodiad 1, a chrynodeb o'r newidiadau allweddol, Atodiad 2, wedi eu cynnwys gyda'r adroddiad.

Ymatebodd ASPM i gwestiwn gan y Cyngorydd M.L. Holland a rhoddodd fanylion rheolaethau'r weithdrefn gymeradwyo. Cadarnhaodd bod newidiadau i'r system rheoli gwybodaeth ar gyfer ysgolion wedi eu cyflwyno yn ddiweddar, ac eglurodd y byddai gwerthuso tendrau, o ran y pris ac ansawdd, o fewn cylch gwaith y Rheolwr Prosiect.

Cytunodd yr ASPM i ddarparu ymateb i Mr P. Whitham mewn perthynas â materion sy'n ymwneud ag agregau.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Mr P. Whitham, cytunwyd y byddai cynnig o hyfforddiant i Aelodau Etholedig o ran Rheolau Gweithdrefn Contractau, gan gynnwys arddangosiad o'r system, yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad i'w gyflwyno i'r Cyngor.

Ymatebodd yr ASPM i gwestiynau gan y Cyngorydd G.M. Kensler a rhoddodd fanylion y Rhestr Gymeradwy o Contractwyr, a oedd yn anhylaw ac a fydd yn dirwyn i ben ym mis Ebrill, 2016 a'i ddisodli gan gytundebau fframwaith gyda nifer llai o gyflenwyr.

Darparodd yr HLHDS fanylion am y broses ar gyfer gwerthu neu gaffael tir. Eglurodd y byddai Priswyr Cymwysedig yn Adran Ystadau'r Cyngor yn cynghori ar y dulliau priodol ar gyfer ymdrin â materion o'r fath. Cadarnhawyd y byddai'r holl drafodion yn destun proses prisiad proffesiynol. Eglurodd y Cyngorydd J. Thompson-Hill bod gweithdrefn gwaredu ar waith, a oedd yn cynnwys Cynllun Dirprwyo, a oedd y tu allan i gylch gwaith y Rheolau Diogelu Defnyddwyr.

#### **PENDERFYNWYD - bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol:-**

- (a) yn nodi ac yn derbyn y Rheolau Gweithdrefn Contractau diwygiedig ac yn awdurdodi eu cyflwyno i'r Cyngor llawn i'w cymeradwyo ym mis Rhagfyr, 2014.
- (b) yn cytuno bod y cynnig o hyfforddiant i Aelodau Etholedig o ran Rheolau Gweithdrefn Contractau yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad i'w gyflwyno i'r Cyngor, ac
- (c) yn gofyn i'r ASPM ddarparu ymateb i Mr P. Whitham mewn perthynas â materion sy'n ymwneud ag agregau.

## (SA i Weithredu)

### 10 EICH LLAIS - DEFNYDDIO ADBORTH CWSMERIAID

Roedd adroddiad gan Benaueth Cefnogaeth Cwsmeriaid ac Addysg (PCChA), a ddarparodd drosolwg o weithgareddau ymgysylltu â chwsmeriaid ar draws yr Awdurdod ac enghreifftiau penodol o wasanaethau sy'n defnyddio adborth cwsmeriaid i gynllunio a darparu gwasanaethau wedi cael ei ddosbarthu'n flaenorol.

Cafodd yr adroddiad ei gyflwyno yn dilyn trafodaeth yn y Pwyllgor Archwilio Perfformiad ynglŷn â sut yr ymatebodd yr Awdurdod i adborth cwsmeriaid a gweithredu yn sgil hynny. Cadarnhawyd y dylai parhau i chwilio am ffyrdd i wella gwasanaethau fod yn rhan hanfodol o weithgarwch y busnes. Roedd y defnydd o adborth gan gwsmeriaid a gafwyd, a oedd yn cynnwys cwynion, canmoliaeth ac awgrymiadau, yn darparu cyfleoedd i wella cynllun a darpariaeth gwasanaethau, gan feithrin hyder y cyhoedd bod yr Awdurdod yn nodi ac yn gweithredu ar adborth gan gwsmeriaid.

Gofynnwyd i bob gwasanaeth ddarparu enghreifftiau o'r mecanwaith a ddefnyddir ganddynt i ymgysylltu â'u cwsmeriaid, gan ganolbwytio'n benodol ar ddefnyddio adborth wrth gynllunio a darparu gwasanaethau. Cafodd manylion am y broses eu darparu yn Atodiad 1 yr adroddiad. Roedd ymgynghoriadau'n cynnwys adroddiadau misol i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, gan adrodd yn ôl bob chwarter i'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad, ac adroddiadau blynyddol i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.

Ymatebodd y PCChA i gwestiwn gan y Cynghorydd J. Butterfield ac eglurodd y broses a fabwsiadwyd, drwy'r Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol, ar gyfer ymgysylltu â Threfi a Chyngorau Cymunedol a Grwpiau o Gwsmeriaid i fynd i'r afael â materion lefel gwasanaeth. Tynnwyd sylw at ddatblygiad y gwasanaeth EMMA a Chalendr Digwyddiadau'r Holl Aelodau, drwy ddefnyddio adborth gan Grŵp Ymwybyddiaeth o Hyfforddiant i Aelodau.

**PENDERFYNWYD** - bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn derbyn yr adroddiad ac yn nodi defnydd yr Awdurdod o adborth cwsmeriaid.

### 11 ADRODDIAD BLYNYDDOL EICH LLAIS 2013/14

Roedd adroddiad gan y Pennaeth Cwsmeriaid a Chefnogaeth Addysg (PCChA), a ddarparodd trosolwg o'r adborth a gafwyd drwy bolisi adborth cwsmeriaid Sir Ddinbych 'Eich Llais' yn ystod y cyfnod 01/04/13 i 31/03/14, wedi'i ddosbarthu'n flaenorol. Nid oedd yr adroddiad yn cynnwys data Gwasanaethau Cymdeithasol a gafodd ei adrodd ar wahân.

Eglurodd y PCChA fod adrodd am gwynion yn cael ei annog ac nad oedd cwynion yn cael eu hystyried yn negyddol gan eu bod yn gyfle i wella'r gwasanaeth a ddarperir. Cyflwynodd yr adroddiad drosolwg o'r nifer a'r mathau o adborth a

gafwyd yn ystod 2013/14, a'r wybodaeth ynglŷn ag Adroddiad Blynnyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'r llythyr ategol.

Cafodd y penawdau canlynol ar gyfer 2013/14 eu cynnwys yn Atodiad 1:-

- Cofnodwyd cyfanswm o 510 o gwynion - gostyngiad o 8% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol lle cafwyd 556 cwyn.
- Yn ystod y flwyddyn, ymatebwyd i 96% (488/510) o'r cwynion o fewn terfynau amser 'Eich Llais'. Roedd hyn yn welliant o gymharu â ffigur 2012/13 o 93% ac roedd yn rhagori ar y targed corfforaethol o 95%.
- Lleihodd nifer y cwynion a ddeliwyd â hwy'n llwyddiannus ar gam 1 o 94% y llynedd i 91%.
- Cafodd cyfanswm o 749 o ganmoliaethau eu cofnodi. Gostyngiad o 9% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol lle cafwyd 820 canmoliaeth.
- Cofnodwyd cyfanswm o 67 o awgrymiadau, sef cynnydd o 319% o gymharu â chyfanswm y flwyddyn flaenorol o 16. Byddai'r maes hwn yn cael ei hyrwyddo i annog mwy o adborth er mwyn llunio ein gwasanaethau.

Gwnaed tri deg chwech o gwynion i'r Ombwdsmon yn ystod 2013/14, a oedd yn uwch na chyfartaledd Awdurdod Lleol Cymru, fel y nodir yn Atodiad 2. Nid oedd hyn yn destun pryder gan mai dim ond dwy gŵyn yn ymwneud â Gwasanaethau Cymdeithasol a gafodd eu hymchwilio gan yr Ombwdsmon, a oedd yn cyfateb i gyfartaledd Awdurdod Lleol Cymru. Cyhoeddwyd un adroddiad Adran 21 a oedd yn ymwneud â Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion. Cafodd crynodebau o'r cwynion eu cynnwys yn Atodiad 3.

Gwnaed pedwar cwyn am Aelodau yn torri'r Cod Ymddygiad yn ystod 2013/14, yr un nifer â'r llynedd, fel y nodwyd yn Atodiad 4. Roedd ymgynghori yn cynnwys cyflwyno adroddiadau misol i'r UDA, adrodd yn chwarterol i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adroddiad Blynnyddol i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.

Cwestiynodd y Cadeirydd y posibilrwydd o archwilio cyflwyno proses i fynd i'r afael â chwynion sy'n ymwneud â gwasanaethau a oedd yn wynebu toriadau gorfodol yn y gyllideb. Eglurodd y PCChA fod gwaith rhagweithiol yn cael ei wneud gyda darparwyr gwasanaethau i archwilio safonau gwasanaeth, o ran rheoli disgwyliadau cwsmeriaid. Tynnwyd sylw at yr angen i gyfathrebu â chwsmeriaid yngylch lefelau darparu gwasanaethau, ynghyd â'r angen i wahaniaethu ynglŷn â natur y cwynion a dderbynir, oherwydd nid yw pob cwyn o reidrwydd yn cael eu priodoli i'r toriadau.

Cyfeiriodd Mr P. Whitham at y dilema o risgiau yn deillio o wella gwasanaethau tra'n mynd i'r afael â'r mater o argaeledd cyfyngedig o adnoddau. Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd G.M. Kensler, eglurodd y PCChA fod y Pwyllgor Craffu Perfformiad wedi cael eu hannog i edrych yn fanwl ar natur benodol y cwynion mewn meysydd gwasanaethau unigol, a byddai hyn yn cael ei gyflawni gyda chyfranogiad Aelodau Arweiniol a Phenaethiaid Gwasanaethau perthnasol.

Tynnodd y Cynghorydd M.L. Holland sylw at yr angen i wahaniaethu rhwng ceisiadau a chwynion gwasanaethau, a'r posibilrwydd y gallai nifer y cwynion a gofnodwyd ymwneud ag un mater penodol.

**PENDERFYNWYD - bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn derbyn ac yn nodi perfformiad y gwasanaethau.**

## 12 CYLCH GORCHWYL PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Cafodd adroddiad gan y Dirprwy Swyddog Monitro, a oedd yn ceisio barn y Pwyllgor ar drosglwyddo meysydd o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor i Bwyllgor Safonau'r Cyngor yn flaenorol.

Eglurodd yr HLHDS fod llwyth gwaith y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn cynyddu. Roedd yr adroddiad yn gofyn am safbwytiau ar drosglwyddo meysydd y gellid ymdrin â hwy o bosibl gan y Pwyllgor Safonau.

Roedd 'awdurdod' presennol y Pwyllgor Safonau ond yn ymdrin â chydymffurfio monitro â'r Cod Ymddygiad i Aelodau, codi safonau moeseg a gonestrwydd, hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad a chwynion yngylch Aelodau a delio â chyfeiriadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC); gan gynnwys chwarae rôl ym Mhrotocol Hunan Reoliadol y Cyngor. Roedd y Pwyllgor Safonau yn cyfarfod bob dau fis ar gyfartaledd ac yn cynnwys 2 Gynghorydd Sir, 4 aelod annibynnol a gafodd eu reciwtio drwy hysbyseb cyhoeddus ac 1 aelod o Gyngor Cymuned. Dim ond pan fyddai'r mwyafrif sy'n bresennol yn Aelodau annibynnol y gallai'r Pwyllgor Safonau fod yn gworwm.

Roedd rhai awdurdodau lleol wedi ymestyn cylch gorchwyl eu Pwyllgor Safonau i ymdrin â materion fel rhannu pryderon a chwynion i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gan aelodau o'r cyhoedd yngylch camweinyddu. Eglurodd y Dirprwy Swyddog Monitro fod cyfle i ystyried llwyth gwaith cynyddol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a'i drosglwyddo i'r Pwyllgor Safonau. Byddai'r penderfyniad terfynol yn cael ei wneud gan y Cyngor Llawn ac yn cael ei ymgorffori yn yr adolygiad o'r Cyfansoddiad. Roedd yr adroddiad yn gofyn am farn y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar yr ymagwedd hon.

Roedd trafodaethau rhwng Cadeiryddion y Pwyllgorau yn ymddangos bod lle i ddadlau ar drosglwyddo rhai neu bob un o'r meysydd canlynol o'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol i'r Pwyllgor Safonau, yn ogystal â chadw ei gylch gwaith presennol:-

- a) Rhannu pryderon.
- b) Indemniadau ar gyfer Swyddogion ac Aelodau.
- c) Cwynion gan gynnwys Cwynion i'r OGCC gan aelodau o'r cyhoedd am y Cyngor (camweinyddu).
- d) Cwynion Comisiynydd Gwybodaeth ac adolygiad o weithgareddau'r Cyngor o dan y Ddeddfwriaeth Gwybodaeth (Diogelu Data a Rhyddid Gwybodaeth).

Cafodd y materion eu trafod yn sydyn yn y Pwyllgor Safonau ar 18 Gorffennaf, 2014 ac roedd diddordeb wedi bod mewn ymgymryd â chylch gwaith ehangach.

Mynegwyd y safbwytiau canlynol gan Aelodau o'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol: -

Teimlai'r Cadeirydd y gellid trosglwyddo a) a b) i'r Pwyllgor Safonau, ond mynegodd amheuon ynghylch trosglwyddo c) a d). Teimlai y dylai d) aros gyda'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, fel c), a allai olygu mynd i'r afael â materion ar lefel gorfforaethol.

Mynegodd y Cyngropydd G.M. Kensler y farn y gellid trosglwyddo d) i'r Pwyllgor Safonau, a chadw a) ac c) gyda'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.

Teimlai'r Cyngropydd J. Butterfield y gellid trosglwyddo a), b), ac c) i'r Pwyllgor Safonau, ond roedd angen rhagor o wybodaeth mewn perthynas â d).

Cyfeiriodd y Cyngropydd M.L. Holland at gyfansoddiad y Pwyllgor Safonau. Roedd o'r farn y gellid trosglwyddo a) i'r Pwyllgor Safonau o ystyried y gymhareb o Aelodau Annibynnol.

Awgrymodd Mr P. Whitham y gallai'r gwaith a wneir gan y Pennaeth Archwilio Mewnol, o ran blaen raglen waith y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, a chynnwys Adroddiad Blynnyddol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, gael eu defnyddio wrth ystyried trosglwyddo meysydd gwaith. Gan fod d) wedi cael ei nodi fel Risg Gorfforaethol, teimlai y dylai aros gyda'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, a gan fod a) yn rhan annatod o'r Polisi Gwrth-dwyll, Llygredigaeth a Llwgrwobrwyd, y dylai aros gyda'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.

Hysbysodd HLHDS y Pwyllgor y byddai angen taro cydbwysedd o ran d) ynghylch ble byddai'r lle mwyaf priodol i osod meysydd gwaith. Eglurodd y byddai swyddogion yn delio â cheisiadau am wybodaeth a bod Polisi ar waith i fynd i'r afael â materion cysylltiedig. Fel un o'r Risgau Corfforaethol sy'n gysylltiedig â Diogelu Data, awgrymwyd y dylai d) aros gyda'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol o bosibl. O ran cwynion yn ymwneud â'r Ombwdsmon, esboniwyd y gallai cwynion ymwneud â sut y mae gwasanaeth yn cael ei gyflwyno ac nid yn fater sy'n ymwneud ag ymddygiad Aelod neu gyflogai.

Amlygodd y Pennaeth Archwilio Mewnol bwysigrwydd yr angen i wahaniaethu rhwng rolau'r ddua Bwyllgor priodol. Eglurodd y gallai cwynion a dderbyniwyd ymwneud ag unigolyn neu system, neu ymddygiad swyddogion neu Aelodau, a chwestiynodd a fyddai'n briodol i'r Pwyllgor Safonau archwilio cwynion sy'n seiliedig ar wasanaethau. Cymeradwyodd PCChA y safbwytiau a fynegwyd bod mater y cwynion yn fater gwasanaeth ac y dylai aros gyda'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.

Ymatebodd y Cyngropydd B.A. Smith i gwestiynau gan Aelodau a chyfeiriodd at y rhestr o Bolisiau'r Cyngor, yr oedd AD yn gweithio arnynt i'w gwneud yn haws eu defnyddio.

Crynhodd y Cadeirydd y drafodaeth a chadarnhaodd y Pwyllgor y canlynol: -

- a) Rhannu pryderon - Mynegwyd safbwytiau amrywiol.
- b) Indemniadau ar gyfer Swyddogion ac Aelodau – Gellid eu trosglwyddo i'r Pwyllgor Safonau.

Cwynion gan gynnwys Cwynion i'r OGCC gan aelodau o'r cyhoedd am y Cyngor (camweinyddu) – Mynegwyd safbwytiau amrywiol. Dylai cwynion lefel gwasanaeth aros gyda'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, tra gallai cwynion yn ymwneud ag unigolion gael eu trosglwyddo o bosibl i'r Pwyllgor Safonau.

Cwynion Comisiynydd Gwybodaeth ac adolygiad o weithgareddau'r Cyngor o dan y Ddeddfwriaeth Gwybodaeth (Diogelu Data a Rhyddid Gwybodaeth) – Consensws cyffredinol safbwytiau yw aros gyda'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, gofynnodd y Pwyllgor i'r HLHDS gynnwys barn y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn yr Adolygiad Cyfansoddi, cysylltu â'r Pwyllgor Safonau ynghylch y safbwytiau a fynegwyd, edrych ar y Cyfansoddiad yn ei gyd-destun ehangach a chyflwyno adroddiad cynnydd pellach i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.

#### **PENDERFYNWYD - bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol:-**

- (a) *yn derbyn ac yn nodi'r manylion yn yr adroddiad.*
- (b) *yn gofyn bod HLHDS yn cynnwys barn y Pwyllgor o ran yr Adolygiad Cyfansoddi, cysylltu â'r Pwyllgor Safonau ynghylch y safbwytiau a fynegwyd ac yn edrych ar y Cyfansoddiad yn ei gyd-destun ehangach, ac*
- (c) *yn cytuno bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn derbyn adroddiad cynnydd pellach.*

**(GW ac IB i Weithredu)**

### **13 DIWEDDARIAD CYNLLUN GWELLA LLYWODRAETHU**

Roedd adroddiad gan y Pennaeth Archwilio Mewnol wedi'i ddosbarthu'n flaenorol.

Cyflwynodd y Pennaeth Archwilio Mewnol yr adroddiad ac eglurodd fod diweddariad ar y Cynllun Gwella Llywodraethu a gyflwynwyd ar 29 Medi, 2014, wedi cynnwys bylchau lle nad oedd ymatebion wedi dod i law oddi wrth swyddogion allweddol, a gofynnodd yr Aelodau am y diweddaraf ar yr eitemau nodedig hynny yn y cyfarfod nesaf.

Cafodd teitl 'datganiad llywodraethu blynnyddol' diweddaraf y Cyngor ei alw yn 'Darparu llywodraethu da a gwelliant parhaus'. Roedd y ddogfen yn darparu hunanasesiad eglur a chytbwys o drefniadau llywodraethu'r Cyngor, gan dynnu sylw at unrhyw wendidau llywodraethu arwyddocaol a meysydd eraill i'w gwella.

Roedd meysydd gwella wedi eu cynnwys yng Nghynllun Gwella'r Drefn Lywodraethol, a oedd yn cynnig camau gweithredu i fynd i'r afael â gwendidau, y swyddogion sy'n gyfrifol am y camau gweithredu hynny ac amserleni. Roedd y diweddariad cyntaf i'r Pwyllgor ar 29 Medi, 2014 wedi bod yn anghyflawn, gan nad oedd ymatebion wedi cael eu darparu er mwyn galluogi i'r Pennaeth Archwilio

Mewnol ddiweddar u'r Cynllun cyfan. Roedd yr ymatebion hyn bellach wedi'u derbyn ac wedi'u cynnwys yn Atodiad 1 o'r adroddiad.

Pe na bai Cynllun Gwella'r Drefn Lywodraethol yn cael ei weithredu, cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio Mewnol y byddai gwendidau yn aros yn nhrefn lywodraethol y Cyngor, a allai arwain at:-

- adroddiadau rheoleiddiol niweidiol;
- defnydd gwael o arian cyhoeddus;
- methiant i wella meysydd corfforaethol a meysydd gwasanaeth allweddol;
- colli hyder budd-ddeiliaid; ac
- effaith andwyol ar enw da'r Cyngor.

Yn dilyn trafodaeth bellach:-

**PENDERFYNWYD - bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn derbyn ac yn nodi'r adroddiad.**

## **14 ADBORTH O'R CYFARFOD CYDRADDOLDEB CORFFORAETHOL**

Esboniodd y Cynghorydd M.L. Holland nad oedd y Grŵp Cydraddoldeb Corfforaethol wedi cyfarfod ers cyflwyno'r adroddiad blaenorol i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.

## **15 RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL**

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol (a gylchredwyd eisoes) i'w ystyried.

Cadarnhaodd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor yn amodol ar gynnwys yr adroddiadau canlynol:-

### **17 Rhagfyr, 2014:-**

- Adroddiad diweddar gan y Pennaeth Archwilio Mewnol ar Daliad Ariannol i rai sy'n gadael gofal.
- Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar Drefniadau Cynllunio Ariannol Sir Ddinbych.
- Adroddiad Blynnyddol AGGCC.
- Adroddiad Cyfansoddiad Enghreifftiol newydd i'w aildrefnu ar gyfer 28 Ionawr, 2015.

### **28 Ionawr, 2015:-**

- Adroddiad Blynnyddol AGGCC.
- Adroddiad ar y Cyfansoddiad Enghreifftiol Newydd.

**PENDERFYNWYD** - yn amodol ar yr uchod bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.

Daeth y Cyfarfod i ben am 13.25 pm.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# Eitem Agenda 5

Adroddiad i'r: Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol

Dyddiad y Cyfarfod: 17 Rhagfyr 2014

Aelod / Swyddog Arweiniol: Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill / Paul McGrady

Awdur yr Adroddiad: Richard Weigh, Prif Gyfrifydd

Teitl: Proses Cyllideb 2015/16

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn rhoi diweddariad ar y broses i ddarparu'r gyllideb refeniw ar gyfer 2015/16.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

I roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa gyfredol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Ystyried y diweddariad diweddaraf a gwneud sylwadau fel y bo'n briodol.

## 4. Manylion am yr Adroddiad

Ers y diweddariad diwethaf, mae proses y gyllideb wedi symud i ddiwedd yr ail gam (gweler Atodiad 1 am ddarlun o broses y gyllideb).

Mae tabl o ddigwyddiadau allweddol ar gael isod:

Tabl 1 Digwyddiadau Allweddol

Digwyddiadau allweddol	Dyddiad	Statws
Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol	15 Ebrill 2014	Wedi'i gwblhau
Briffio'r Cyngor	28 Ebrill	Wedi'i gwblhau
Rownd Gyntaf Cyfarfodydd Cyllideb gyda Gwasanaethau	7 Mai – 4 Awst	Wedi'i gwblhau
Diweddariad i Friffo'r Cabinet	12 Mai	Wedi'i gwblhau
Adolygiad UDG o'r Broses	19 Mai	Wedi'i gwblhau
Diweddariad i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol	21 Mai	Wedi'i gwblhau
Diweddariad i Friffo'r Cabinet	2 Mehefin	Wedi'i gwblhau
Diweddariad i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol	2 Gorffennaf	Wedi'i gwblhau
Diweddariad i'r UDA	3 Gorffennaf	Wedi'i gwblhau
Diweddariad i Friffo'r Cabinet	7 Gorffennaf	Wedi'i gwblhau
Gweithdy Cyllideb Cyntaf i Aelodau	9 Gorffennaf	Wedi'i gwblhau

<ul style="list-style-type: none"> <li>Priffyrrdd a'r Amgylchedd (Rhan 1)</li> <li>Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden</li> </ul>		
<b>Ail Weithdy Cyllideb i Aelodau</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>Addysg / Ysgolion</li> <li>Cwsmeriaid a Chymorth Addysg</li> <li>Cyllid ac Asedau</li> <li>Cyllidebau Corfforaethol</li> </ul>	<b>14 Gorffennaf</b>	<b>Wedi'i gwblhau</b>
<b>Trydydd Gweithdy Cyllideb i Aelodau</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>Priffyrrdd a'r Amgylchedd (Rhan 2)</li> <li>Gwella Busnes a Moderneiddio</li> <li>Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd</li> <li>Adnoddau Dynol</li> </ul>	<b>26 Awst</b>	<b>Wedi'i gwblhau</b>
<b>Gweithdy ychwanegol os oes ei angen</b>	<b>28 Awst</b>	<b>Nid oes ei angen</b>
<b>Pedwerydd Gweithdy Cyllideb i Aelodau</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gwasanaethau Oedolion a Busnes</li> <li>Gwasanaethau Plant a Theuluoedd</li> <li>Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden (Gwasanaethau Ieuenciad)</li> <li>Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd</li> </ul>	<b>2 Medi</b>	<b>Wedi'i gwblhau</b>
<b>Diwedduriad i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol</b>	<b>3 Medi</b>	<b>Wedi'i gwblhau</b>
<b>Cyngor Sir</b>	<b>9 Medi</b>	<b>Wedi'i gwblhau</b>
<b>Pumed Gweithdy Cyllideb i Aelodau</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>Tai a Datblygu Cymunedol</li> <li>Cynllun Corfforaethol</li> </ul>	<b>22 Medi</b>	<b>Wedi'i gwblhau</b>
<b>Cynigion cam 2 a ddatblygwyd gan wasanaethau</b>	<b>Medi / dechrau Hydref</b>	<b>Wedi'i gwblhau</b>
<b>Diwedduriad i Friffo'r Cabinet</b>	<b>22 Medi</b>	<b>Wedi'i gwblhau</b>
<b>Diwedduriad i'r UDA</b>	<b>2 Hydref</b>	<b>Wedi'i gwblhau</b>
<b>Diwedduriad i Friffo'r Cabinet</b>	<b>6 Hydref</b>	<b>Wedi'i gwblhau</b>
<b>Chweched Gweithdy Cyllideb i Aelodau</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden</li> <li>Ysgolion / Gwella Ysgolion</li> <li>Cefnogi Ysgolion</li> <li>Cwsmeriaid a Chymorth Addysg</li> </ul>	<b>8 Hydref</b>	<b>Wedi'i gwblhau</b>
<b>Seithfed Gweithdy Cyllideb i Aelodau</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>Priffyrrdd a'r Amgylchedd</li> </ul>	<b>13 Hydref</b>	<b>Wedi'i gwblhau</b>
<b>Wythfed Gweithdy Cyllideb i Aelodau</b>	<b>20 Hydref</b>	<b>Wedi'i gwblhau</b>

<ul style="list-style-type: none"> <li><b>Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd</b> <b>(Teledu Cylch Caeedig)</b></li> <li><b>Gwasanaethau Plant a Theuluoedd</b></li> <li><b>Gwasanaethau Oedolion a Busnes</b></li> </ul>		
<b>Nawfed Gweithdy Cyllideb i Aelodau</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>Cyllid ac Asedau</li> <li>Y Gyfraith, AD a Gwasanaethau Democratiaidd</li> <li>Datblygiad Economaidd a Busnes</li> </ul>	<b>27 Hydref</b>	<b>Wedi'i gwblhau</b>
<b>Diwedduariad i Friffo'r Cabinet</b>	<b>3 Tachwedd</b>	<b>Wedi'i gwblhau</b>
<b>Diwedduariad i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol</b>	<b>5 Tachwedd</b>	<b>Wedi'i gwblhau</b>
<b>Diwedduariad i Friffo'r Cabinet</b>	<b>8 Rhagfyr</b>	<b>Wedi'i drefnu</b>
<b>Cyngor Sir</b>	<b>9 Rhagfyr</b>	<b>Wedi'i drefnu</b>
<b>Degfed Gweithdy Cyllideb i Aelodau</b>	<b>12 Rhagfyr</b>	<b>Gwahoddiadau wedi'u hanfon</b>
<b>Diwedduariad i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol</b>	<b>17 Rhagfyr</b>	
<b>Cyngor Sir</b>	<b>3 Chwefror 2015</b>	

Roedd strategaeth gyllidebol y Cyngor wedi nodi bwlch cyllidebol o hyd at £18 miliwn dros ddwy flynedd yn flaenorol. Cafodd hyn ei lywio'n bennaf gan arwyddion y byddai setliad cyllido'r Cyngor yn cael ei dorri o 4.5%. Cyhoeddwyd setliad dros dro'r Llywodraeth Leol ar 8 Hydref. Mae'r setliad yn nodi y bydd y gostyngiad ariannol i gyllideb y Cyngor yn 3.7% sy'n cyfateb i £5.3 miliwn. Gyda'r costau y mae'n rhaid i'r Cyngor eu hariannu, fel cynnydd mewn cyflog, pensiynau ac ynni, mae bwlch y gyllideb ar gyfer 2015/16 yn awr tua £8.3 miliwn a disgwyli'r bydd tua £8.8 miliwn yn 2016/17 – cyfanswm o £17.1 miliwn.

Mae dadansoddiad o'r symudiadau mewn rhagdybiaethau rhwng mis Medi a diwedd mis Tachwedd wedi'i gynnwys yn Atodiad 2. Mae'r atodiad yn amlinellu effaith y newidiadau yn sgil y Setliad Dros Dro, gan gynnwys effaith trosglwyddo grantiau i mewn ac allan o'r Setliad, ac yn dangos y symudiad mewn rhagdybiaethau pwysau cost yn ystod y cyfnod. Dylid nodi bod y rhagdybiaethau yn newid yn rheolaidd ac fe ddangosir hyn yn y symudiad dros y tri mis diwethaf sy'n cynnwys rhagdybiaethau ar gyfer costau straen pensiwn, ardoll y gwasanaeth Tân a chodiad cyflog. Mae Atodiad 3 yn dangos tablau o'r Setliad Dros Dro i dynnu sylw at y canlynol:

- Mae Tabl 1 yn dangos y sylfaen a addaswyd gyda gostyngiad o 3.7%
- Mae Tabl 2 yn dangos sut yr addaswyd y sylfaen gan drosglwyddiadau i mewn ac allan o'r Setliad
- Mae Tabl 3 yn dangos trosglwyddiadau pellach wedi'u cynnwys yn y Setliad ond heb eu hariannu'n benodol

- Mae Tabl 4 yn dangos rhestr o'r grantiau rhwng 2014/15 a 2015/16

Mae Tabl 4 wedi'i gynnwys i dynnu sylw at y mater a adroddwyd y mis diwethaf ynghylch y Gronfa Gofal Canolraddol a'r Gronfa Cydweithredu Rhanbarthol. Sefydlwyd y Gronfa Cydweithredu Rhanbarthol yn 2013/14 fel grant 3 blynedd i ariannu prosiectau cydweithio rhanbarthol ac roedd cyfanswm o £10 miliwn ar gael ar draws Cymru. Yn 2014/15, dargyfeiriwyd hanner y gronfa i gronfa gwerth £50 miliwn (y Gronfa Gofal Canolraddol) i hybu gwell integreiddio rhwng iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r setliad dros dro yn dangos diwedd y Gronfa Gofal Canolraddol ond mae'n cynnwys oddeutu £5 miliwn o arian y Gronfa Cydweithredu Rhanbarthol sy'n ariannu nifer o brosiectau sydd â blwyddyn arall ar ôl.

Bydd y setliad terfynol ar gyfer 2015/16 yn cael ei gyhoeddi ddechrau fis Rhagfyr. Bydd diweddariad llafar ar y setliad terfynol yn cael ei ddarparu yn y cyfarfod.

Bydd ail gam proses y gyllideb yn dod i ben gyda chynigion i'r Cyngor eu cymeradwyo ar 9 Rhagfyr. Cyfanswm y cynigion yw £3.6 miliwn yn 2015/16 ac £1.8 miliwn yn 2016/17 a gyda'r cynigion a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Medi, bydd cyfanswm yr holl gynigion yn dod i £7.3 miliwn yn 2015/16 a £2.7 miliwn yn 2016/17.

Bydd diweddariad llafar yn cael ei ddarparu mewn perthynas ag unrhyw fater sy'n ymwneud â'r gyllideb a godir yng nghyfarfod y Cyngor ar 9 Rhagfyr.

Bydd Cam 3 proses y gyllideb yn ystyried y cynigion terfynol i gydbwyso cylideb 2015/16, gan gynnwys opsiynau ar gyfer Treth y Cyngor a defnyddio unrhyw gronfeydd wrth gefn. Bydd y materion hyn yn cael eu trafod yng weithdy'r aelodau ar 12 Rhagfyr cyn y caiff y gyllideb ei chymeradwyo'n derfynol ym mis Chwefror. Bydd Cam 3 y broses hefyd yn parhau i ddatblygu opsiynau arbedion ar gyfer 2016/17.

## **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae rheolaeth effeithiol o gyllidebau'r Cyngor a chyflawni'r strategaeth gyllidebol a gytunwyd yn sylfaen i weithgareddau ym mhob maes, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol.

## **6. Faint fydd o'n costio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae ar y Cyngor angen sicrhau arbedion o tua £17 miliwn dros y ddwy flynedd ariannol nesaf.

## **7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad?**

Bydd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb yn cael ei gwblhau ar gyfer yr holl gynigion perthnasol wrth i'r broses ddatblygu.

## **8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal â'r Pwyllgor Craffu ac eraill?**

Mae'r adroddiad i'r Cyngor ar 9 Rhagfyr yn amlygu'r broses ymgynghori sylweddol. Mae hyn yn cynnwys:

Yn ychwanegol at adroddiadau rheolaidd ar y broses i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, mae proses y gyllideb wedi'i hystyried gan CET, yr UDA, Briffio'r Cabinet a chyfarfodydd Briffio'r Cyngor. Mae dau o'r cynigion unigol hefyd wedi'u hystyried gan bwylgorau archwilio - y rhain yw teledu cylch cyfyng (PPP08) a Gwasanaethau Darparu (ABS02). Mae'r cynnig olaf hefyd wedi bod yn destun Grŵp Gorchwyl a Gorffen penodol a sefydlwyd gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad i archwilio opsiynau ar gyfer darparu gwasanaethau gofal o ansawdd uchel.

Erbyn diwedd y broses pennu cyllideb 2015/16, bydd yna o leiaf deg gweithdy cyllideb wedi'i gynnal gydag aelodau etholedig er mwyn archwilio cyllidebau gwasanaethau ac ystyried cynigion cyllidebau.

Manylion ynglŷn â phwrpas ac ymatebion i ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd 'Torri'r Brethyn' - cafwyd 822 o ymatebion i'r arolwg a 5,000 o ymweliadau â'r wefan.

Yn ogystal â'r ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd, mae'r Cyngor wedi rhoi gwybod i bob Cyngor Tref a Chymuned ynghylch y toriadau arfaethedig ac mae wedi cynnal cyfarfod ar gyfer yr holl gynghorau er mwyn trafod y cynigion. Mae trafodaethau parhaus rhwng rhai o wasanaethau'r Cyngor Sir a rhai cymghorau tref ynghylch effaith y cynigion ac a fyddai'r cymghorau tref yn ystyried ariannu rhai o'r gweithgareddau os gwneir y toriadau ai peidio. Mae trafodaethau hyn yn mynd rhagddynt.

Mae'r Cyngor wedi ymgynghori â'i bartneriaid, trwy'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y Cyd, a bu cyfarfod rhwng cydweithwyr o'r Heddlu ac uwch swyddogion y Cyngor i ddechrau edrych ar ddewisidiadau eraill possibl i'r toriad yn y ddarpariaeth teledu cylch cyfyng, os caiff ei wneud. Bydd y trafodaethau hyn yn parhau os bydd y cynigion yn datblygu'n benderfyniadau.

Mae pob aelod o staff wedi cael gwybod am y broses o bennu'r gyllideb a, lle y bydd cynigion yn dod yn benderfyniadau, bydd y staff yr effeithir arnynt yn cael ymgynghoriaeth lawn, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau Adnoddau Dynol y Cyngor.

Ymgynghorwyd ag Undebau Llafur drwy'r Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol. Cytunwyd ar broses ar gyfer ymgysylltu â staff a'u cynrychiolwyr TU yn ystod Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol ym mis Medi ac fe gedwir at hyn.

## **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Bydd hon yn parhau i fod yn broses hynod heriol a bydd yn rhaid gwneud penderfyniadau anodd. Mae ymrwymiad a chefnogaeth barhaus yr aelodau etholedig wrth wneud penderfyniadau a chraffu yn hanfodol.

**10. Pa risgiau sydd yna, ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**


Dyma'r cyfnod ariannol mwyaf heriol y mae'r Cyngor wedi ei wynebu a byddai methu a chyflawni strategaeth gyllideb effeithiol yn rhoi mwy o bwysau ar wasanaethau yn y dyfodol.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu eu materion ariannol yn briodol dan Adran 151, Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**BUDGET PROCESS 2015/16**

BUDGET OVERSIGHT - Monthly Updates to CET, Corporate Governance Committee &amp; Cabinet Briefing



Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

<u>Appendix 2</u>	Planning Assumptions -4.50% £'000	Draft Settlement -3.66% £'000	Difference £'000
<b>RSG Planning Base</b>	<b>145,170</b>	<b>145,170</b>	-
Adjusted Base 15/16 - grant transfers (1)	145,170	145,441	271
Planned v Provisional Settlement	138,637	140,116	(1,479)
<b>Adjusted Cash Reduction RSG</b>	<b>6,533</b>	<b>5,325</b>	<b>(1,208)</b>
Cost Pressures (2)	3,891	4,011	120
Additional Unfunded Transfers in 2015/16 (3)	-	241	241
<b>Impact of Draft Settlement</b>	<b>10,424</b>	<b>9,577</b>	<b>(847)</b>
Council Tax Rise @ 2.75%	(1,318)	(1,318)	-
Council Tax Base Adjustment (4)		-	-
<b>Savings Required</b>	<b>9,106</b>	<b>8,259</b>	<b>(847)</b>
Use of Balances (5)	0	500	
<b>Final Savings Required</b>	<b>9,106</b>	<b>7,759</b>	<b>(1,347)</b>

#### Notes

- (1) Settlement is adjusted to bring in grant transfers - these included (LGBI) Local Government Borrowing Initiative (Yr1) and the Integrated Family Support Service. Increasing the starting base means the cash reduction is greater. The grant transfers are detailed in an extract from the Draft Settlement (enclosed).
- (2) The MTFP has to make assumptions around unavoidable cost pressures such as pay rises, pension increases, NNDR inflation energy cost rises, insurance premium increases, etc. The change between the value of pressures quoted in September relates to a number of movements including: increased pension strain, pay assumptions and increases to the fire service levy. The point on the cost pressures is that the assumptions can change on an almost weekly basis.
- (3) The Draft Settlement included a further instalment of LGBI which is included within the overall settlement but has not been pass ported specifically within it - so it is effectively a cut. The LGBI element of this is £242k. This pressure will be reduced locally by £85k as cuts to CTRS administration grant and the PFI grant will be pass ported onto the relevant service budgets.
- (4) The Council Tax Base was recently recalculated. The recalculation suggests a gross increase of 1%. However, it is likely (as indicated by draft figures recently circulated) that the final settlement will adjust for this by reducing RSG by the equivalent financial value.
- (5) Planning assumption now is that balances will be used for the next three years - i.e . not budgeting to replenish the £500k cash used each year over that period.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## WELSH LOCAL GOVERNMENT SETTLEMENT 2015-16

Provisional

**Table 1: Change in Aggregate External Finance (AEF), adjusted for transfers, by Unitary Authority**

<b>Unitary authority</b>	<b>2014-15</b>	<b>2015-16</b>	<b>% change</b>	<b>Rank</b>	<b>£000s</b>
	<b>final AEF*</b>	<b>provisional AEF</b>			
Isle of Anglesey	96,628	92,887	-3.9%	16	
Gwynedd	175,110	168,060	-4.0%	17	
Conwy	157,963	151,154	-4.3%	20	
Denbighshire	145,441	140,116	-3.7%	14	
Flintshire	193,137	186,506	-3.4%	12	
Wrexham	175,308	170,307	-2.9%	5	
Powys	182,395	174,316	-4.4%	21	
Ceredigion	103,889	99,256	-4.5%	22	
Pembrokeshire	167,223	160,260	-4.2%	18	
Carmarthenshire	261,141	252,446	-3.3%	7	
Swansea	318,434	307,713	-3.4%	8	
Neath Port Talbot	210,186	205,133	-2.4%	1	
Bridgend	195,160	188,543	-3.4%	10	
The Vale Of Glamorgan	157,889	152,507	-3.4%	11	
Rhondda Cynon Taf	367,802	354,369	-3.7%	13	
Merthyr Tydfil	91,583	89,228	-2.6%	3	
Caerphilly	272,730	263,497	-3.4%	9	
Blaenau Gwent	113,283	110,084	-2.8%	4	
Torfaen	135,813	130,806	-3.7%	15	
Monmouthshire	97,831	93,619	-4.3%	19	
Newport	214,920	209,410	-2.6%	2	
Cardiff	436,298	423,703	-2.9%	6	
<b>Total Unitary Authorities</b>	<b>4,270,161</b>	<b>4,123,920</b>	<b>-3.4%</b>		

\* The published AEF for 2014-15 is subject to a number of adjustments set out in Table 8

**WELSH LOCAL GOVERNMENT SETTLEMENT 2015-16**

Provisional

Table 2: Adjustments to 2014-15 Aggregate External Finance (AEF) base\*, by Unitary Authority

£000s

Unitary authority	Actual 2014-15 AEF	Transfers in:				Transfers out:			Adjusted 2014-15 AEF
		Local Government Borrowing Initiative - 21st Century Schools	Integrated Family Support Service	Autistic Spectrum Disorder	Student Finance Wales	Feed Safety Controls	National Adoption Service		
Isle of Anglesey	96,432	86	144	40	57	11	6	96,628	
Gwynedd	174,971	93	144	40	107	21	10	175,110	
Conwy	157,855	46	144	40	91	21	11	157,963	
Denbighshire	145,170	188	144	40	76	16	9	145,441	270
Flintshire	192,942	164	144	40	120	22	12	193,137	
Wrexham	175,208	57	144	40	109	21	12	175,308	
Powys	182,077	200	216	40	107	21	11	182,395	
Ceredigion	103,636	82	216	40	67	12	6	103,889	
Pembrokeshire	166,715	384	216	40	102	19	10	167,223	
Carmarthenshire	260,859	222	216	40	151	29	16	261,141	
Swansea	318,224	131	288	40	192	37	21	318,434	
Neath Port Talbot	209,769	238	288	40	113	23	14	210,186	
Bridgend	194,863	115	288	40	111	22	12	195,160	
The Vale Of Glamorgan	157,641	54	280	40	97	18	10	157,889	
Rhondda Cynon Taf	367,332	410	280	40	198	39	22	367,802	
Merthyr Tydfil	91,282	44	280	40	48	9	6	91,583	
Caerphilly	272,584	133	173	40	153	30	17	272,730	
Blaenau Gwent	113,097	52	173	40	60	12	7	113,283	
Torfaen	135,487	209	173	40	73	14	9	135,813	
Monmouthshire	97,509	204	173	40	74	13	7	97,831	
Newport	214,826	38	173	40	118	26	14	214,920	
Cardiff	435,986	352	280	40	275	53	31	436,298	
<b>Total Unitary Authorities</b>	<b>4,264,466</b>	<b>3,500</b>	<b>4,577</b>	<b>880</b>	<b>2,500</b>	<b>490</b>	<b>272</b>	<b>4,270,161</b>	

\* Adjustments to base for like-for-like comparisons

Note: The published AEF is subject to an adjustment to make it a suitable basis for the floor calculation. It is adjusted for transfers of £5.695m, which are expressed in 2014-15 prices.

## WELSH LOCAL GOVERNMENT SETTLEMENT 2015-16

Provisional

Table 3: New Indicator Based Assessments (IBAs), 2015-16 by Unitary Authority

Unitary authority	Transfers in:		£000s
	Local Government Borrowing Initiative - 21st Century Schools	Integrated Family Support Service	Total 2015-16 new IBAs
Isle of Anglesey	196	144	340
Gwynedd	212	144	356
Conwy	105	144	249
Denbighshire	429	144	574
Flintshire	376	144	520
Wrexham	130	144	275
Powys	457	216	674
Ceredigion	187	216	403
Pembrokeshire	877	216	1,093
Carmarthenshire	507	216	723
Swansea	300	288	588
Neath Port Talbot	544	288	832
Bridgend	263	288	551
The Vale Of Glamorgan	123	280	402
Rhondda Cynon Taf	936	280	1,216
Merthyr Tydfil	100	280	380
Caerphilly	304	173	477
Blaenau Gwent	118	173	291
Torfaen	477	173	650
Monmouthshire	465	173	638
Newport	88	173	261
Cardiff	804	280	1,083
<b>Total Unitary Authorities</b>	<b>8,000</b>	<b>4,577</b>	<b>12,577</b>

## WELSH LOCAL GOVERNMENT SETTLEMENT 2015-16

**Provisional**

**Table 4: List and estimated amounts of Grants for total Wales**

<b>Existing Grant name</b>	<b>2014-15</b>	<b>£m 2015-16</b>
Bus Revenue Support	0.251	0.550
Bus Revenue Support (Traws Cymru)	1.800	1.500
Bus Services Support Grant	25.000	25.000
Concessionary Fares Scheme	58.550	60.500
Flood Funding to Local Authorities <sup>2</sup>	1.577	0.000
Land Reclamation S16 <sup>2</sup>	2.862	0.000
Local Transport Grant	15.700	N/A
Road Safety Grant	2.000	2.000
Tourism Investment Support Scheme ( Wrexham)	0.085	N/A
Travel Plan Co-ordinators	0.160	N/A
Wales Transport Entitlement Card	0.200	N/A
Youth Concessionary Fares Scheme	0.000	5.000
Education Improvement Grant for Schools	0.000	141.021
14-19 Learning Pathways <sup>3</sup>	10.180	0.000
Foundation Phase Revenue Grant <sup>3</sup>	97.900	0.000
School Effectiveness Grant <sup>3</sup>	36.718	0.000
Welsh in Education Grant <sup>3</sup>	5.630	0.000
Minority Ethnic Achievement Grant <sup>3</sup>	10.000	0.000
Grant for the Education of Gypsy Children and Traveller Children <sup>3</sup>	1.100	0.000
Induction <sup>3</sup>	0.400	0.000
Lead and Emerging Practitioner School (Tranche I, II and Special Schools) <sup>3</sup>	1.930	0.000
Higher Level Teaching Assistants <sup>3</sup>	0.182	0.000
Reading and Numeracy Test Support <sup>3</sup>	0.823	0.000
Bands 4 and 5 <sup>3</sup>	0.460	0.000
Pupil Deprivation Grant <sup>4</sup>	71.246	82.046
Family Learning Programme Grant <sup>2</sup>	1.829	0.000
Learning in Digital Wales (LIDW) <sup>2</sup>	3.310	0.000
Post-16 Provision in Schools	108.299	N/A
Community Learning	4.555	N/A
ReACT <sup>2</sup>	8.581	0.000
School Uniform Grant	0.736	0.736
Skills Growth Wales	2.716	0.000
Support Staff Training Grant <sup>4</sup>	0.200	N/A
Youth Work Strategy Support Grant	2.756	2.756
Autistic Spectrum Disorder Infrastructure Grant <sup>1</sup>	0.880	0.000
Delivering Transformation Grant <sup>4</sup>	1.300	3.000
Food Hygiene Rating Grant <sup>2</sup>	0.133	0.000
Integrated Family Support Services <sup>1</sup>	4.577	0.000
<b>Intermediate Care Fund <sup>2 4</sup></b>	<b>35.000</b>	<b>0.000</b>
Social Care Workforce Development Programme	8.159	8.400
Substance Mis-use Action Fund	22.663	27.475
Armed Forces Day Funding	0.020	0.020
Broadcasting & Community Council Websites	0.100	N/A
Communities First (Clusters)	33.379	N/A
Community Cohesion Grant	0.350	0.350
Community Fire Safety	3.347	1.030
Domestic Abuse Service Grant - Community Cohesion Officers <sup>4</sup>	0.050	0.050
Domestic Abuse Service Grant - CORE	0.361	N/A

Domestic Abuse Service Grant - DAC & IDVA	0.825	N/A
Families First	43.422	43.422
Flying Start Revenue Grant	68.644	75.600
Language and Play	1.350	1.350
Local Government Borrowing Initiative - 21st Century Schools <sup>1</sup>	3.500	0.000
Local Service Board Development Grant (LSB) <sup>2</sup>	0.350	0.000
Local Service Board European Structural Fund (ESF) Project <sup>2</sup>	3.502	0.000
North Wales Family Support Collaboration Project <sup>2</sup>	0.055	0.000
Out of School Childcare Grant	2.300	2.300
Pupil Deprivation Grant (Communities First)	1.963	2.000
<b>Regional Collaboration Fund <sup>4</sup></b>	<b>5.174</b>	<b>5.174</b>
Remploy ESG	3.290	0.213
Scrutiny Development Fund <sup>2</sup>	0.100	0.000
Successor Outcome Agreement Grant	31.100	31.100
Youth Crime Prevention Fund	4.900	4.900
Youth Justice Services	0.296	0.240
Aberystwyth Regeneration Area Grant <sup>2</sup>	0.031	0.000
Business Improvement Districts	0.079	0.079
Cardiff Bay Legacy Funding	6.397	6.253
Ceredigion Oil Buying Syndicate	0.060	0.035
CyMAL	1.918	N/A
Flood and Coastal Erosion Risk Management	12.200	12.200
Lead Local Flood Authority Grant Funding (FWMA2010 & FRR2009)	2.200	2.200
Local Authority Animal Health and Welfare Framework <sup>2</sup>	0.600	0.000
Supporting People	134.359	124.409
Sustainable Waste Management Grant	66.000	64.000
Tidy Towns	1.713	1.713
Town Centre Partnerships	0.300	0.400
Waste Procurement - Food Waste Programme <sup>2</sup>	0.864	0.000
Waste Procurement - Gate Fee Support	0.613	1.975
Waste Procurement - Pre payment for Services (Food Waste) <sup>2</sup>	1.333	0

Note: The information shown above details the grants where the amount that Total Wales will receive in 2014-15 £ for 2015-16 are known. It is important to note that amounts for future years are indicative at this stage and are formal notification of grant allocations is a matter for the relevant policy area.

N/A = figures not available at time of publication

1. Transferring into Settlement in 2015-16
2. Grant Ending in 2014-15
3. Grants amalgamated into Education Improvement Grant for Schools from 2015-16
4. Grant is paid on a regional basis

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Adroddiad i'r:	Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol
Dyddiad y Cyfarfod:	17 Rhagfyr 2014
Aelod/Swyddog Arweiniol:	Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau/ Pennaeth Cyllid ac Asedau
Awdur yr Adroddiad:	Pennaeth Cyllid ac Asedau
Teitl:	Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o Gynllunio Ariannol

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Cyflwyno adroddiad terfynol Swyddfa Archwilio Cymru ar drefniadau cynllunio ariannol Sir Ddinbych.

## 2. Beth yw'r rheswm dros luniô'r adroddiad hwn?

2.1 Derbyn barn y Pwyllgor ar yr adroddiad.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Pwyllgor yn ystyried cynnwys yr adroddiad ac yn rhoi sylwadau fel y bo'n briodol.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ynghlwm ac yn hunanesboniadol.

4.2 Mae'r canfyddiadau allweddol fel a ganlyn:

- Mae gan y Cyngor drefniadau rheoli ariannol da heb unrhyw ddiffyg uniongyrchol
- Mae gan y Cyngor hanes da o ran cyflawni arbedion a nodwyd o fewn blwyddyn yn erbyn y camau gweithredu a gymeradwywyd
- Mae cynlluniau a threfniadau'r Cyngor yn y dyfodol i sicrhau arbedion yn addas i'r diben ac yn cael eu rheoli'n effeithiol
- Nid oes cynigion nac argymhellion yn sgil yr adolygiad hwn.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenorïaethau Corfforaethol?

5.1 Mae rheolaeth ariannol gadarn yn hanfodol i ddarparu holl wasanaethau'r Cyngor.

## 6. Faint fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

- 6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau o ran cost yn codi o'r cynigion
- 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd am y penderfyniad?**

Ni chynhaliwyd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb oherwydd nad yw'n berthnasol. Cynhelir Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb ar gynigion penodol lle bo'n briodol.

- 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

Amh.

- 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae'n bwysig bod gan y Cyngor reolaeth ariannol gadarn er mwyn sicrhau ei fod yn gallu cyflawni'r arbedion sydd eu hangen rŵan ac yn y dyfodol.

- 10. Pa risgiau sydd yna, ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

- 10.1 Amh.

- 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

- 11.1 Dan adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972, rhaid i'r Cyngor wneud trefniadau priodol ar gyfer rheoli ei gyllid yn gywir.

**Swyddog Cyswllt:** Pennaeth Cyllid ac Asedau      Ffôn: 01824 706140

## Asesu Cynlluniau Ariannol **Cyngor Sir Ddinbych**

**Blwyddyn archwilio:** 2014-15

**Cyhoeddwyd:** Hydref 2014

**Cyfeirnod y ddogfen:** 575A2014

# Statws yr adroddiad

---

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Sir Ddinbych fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â'r swyddogaethau statudol.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar yr Archwilydd Cyffredinol, staff Swyddfa Archwilio Cymru neu, lle y bo'n gymwys, yr archwilydd penodedig mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a, lle y bo'n gymwys, yr archwilydd penodedig yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau yngl n â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn

[infoofficer@wao.gov.uk](mailto:infoofficer@wao.gov.uk).

Lluniwyd y ddogfen hon gan Anthony Veale a Gwilym Bury.

# Cynnwys

---

## Adroddiad

Cefndir i'n gwaith	4
Mae gan y Cyngor drefniadau rheoli ariannol da heb unrhyw ddiffygion uniongyrchol	5
Mae gan y Cyngor hanes da o gyflawni arbedion a nodwyd o fewn y flwyddyn yn erbyn y camau gweithredu arfaethedig a gymeradwywyd ganddo	5
Mae cynlluniau a threfniadau'r Cyngor ar gyfer cyflawni arbedion yn y dyfodol yn addas at y diben ac maent yn cael eu rheoli'n effeithiol	5
Cynigion ar gyfer gwella	6

## Atodiadau

Canlyniadau manwl ein hadolygiad	7
----------------------------------	---

# Adroddiad

---

## Cefndir i'n gwaith

1. Mae systemau rheoli ariannol da yn hanfodol er mwyn gwarchod arian cyhoeddus yn effeithiol a darparu gwasanaethau cyhoeddus effeithlon. Mae systemau rheoli ariannol da hefyd yn hanfodol er mwyn sicrhau bod awdurdodau yn parhau i ddarparu gwasanaethau i gyflawni rhwymedigaethau statudol a diwallu anghenion cymunedau lleol. Mae systemau rheoli ariannol da:
  - Ñ yn helpu awdurdodau i wneud y penderfyniad cywir ar gyfer y byrdymor, y tymor canolig a'r hirdymor;
  - Ñ yn hanfodol er mwyn sicrhau systemau llywodraethu corfforaethol da;
  - Ñ yn ymwneud cymaint â rheoli perfformiad a chyflawni amcanion strategol â rheoli arian;
  - Ñ yn sail i ansawdd gwasanaethau a gwella gwasanaethau;
  - Ñ yn sail i atebolrwydd i randdeiliaid am warchod a defnyddio adnoddau; ac
  - Ñ yn ddisgyblaeth reoli allweddol.
2. Nid yw rheoli ar gyfer yr hirdymor yn ymwneud â rhagweld y dyfodol; mae'n ymwneud â pharatoi ar ei gyfer. Mae cynllunio yn ymwneud â deall y galw yn y dyfodol, asesu effaith newidiadau tebygol, adolygu'r bylchau rhwng anghenion ariannu ac incwm posibl a datblygu strategaethau arbedion priodol.
3. Dylai penderfyniadau ynghylch yr hyn sy'n ymarferol gael eu gwneud ar sail blaenorriaethau strategol yr awdurdod a'i iechyd ariannol. Gall strategaethau ariannol hirdymor a chynlluniau ariannol tymor canolig tra ystyriol a manwl sicrhau y caiff blaenorriaethau strategol eu cyflawni drwy alluogi awdurdod i wneud dewisiadau ariannol priodol. I'r gwirthwyneb, mae gwaith cynllunio cyllidebol blynyddol byrdymor yn annog awdurdodau i fabwysiadu dull gweithredu cynyddrannol a lywir gan brosesau sy'n rhy anhyblyg mewn cyfnod o newid allanol cyflym.
4. Rhwng mis Mai a mis Awst 2014, edrychodd Swyddfa Archwilio Cymru ar sefyllfa ariannol awdurdodau a'r ffordd y maent yn cyllidebu ac yn cyflawni'r arbedion gofynnol. Ystyriodd y gwaith hwn p'un a oes gan awdurdodau drefniadau cadarn ar waith i reoli'r gostyngiadau cyllidebol sy'n eu hwynebu er mwyn sicrhau eu bod mewn sefyllfa ariannol sefydlog a fydd yn eu galluogi i barhau i weithredu yn y dyfodol agos. Mae'r gwaith yn canolbwytio ar gyfnod cynllunio ariannol 2014-15. Er mwyn llywio barn ar gynllunio ar gyfer cyllidebau a'u cyflawni'n llwyddiannus, ystyriwyd hefyd berfformiad ar gyfer y blynyddoedd ariannol blaenorol 2011-12 a 2013-14.
5. Canolbwytiodd y gwaith ar ateb y cwestiwn canlynol: **A yw'r awdurdod yn rheoli gostyngiadau cyllidebol yn effeithiol er mwyn sicrhau cydnherthedd ariannol?** Yn yr adroddiad hwn rydym yn nodi ein casgliadau ar berfformiad a'r rhagolygon ar gyfer y dyfodol:
  - **Perfformiad blaenorol** – a lwyddodd yr awdurdod i nodi'r arbedion roedd angen eu sicrhau rhwng 2011-12 a 2013-14, cynllunio ar eu cyfer a'u cyflawni; ac, os oedd diffyg, sut yr ymdriniwyd ag ef.

- 
- **Rhagolygon ar gyfer y dyfodol** – a oes gan yr awdurdod fframwaith corfforaethol effeithiol ar gyfer cynllunio ariannol, prosesau rheoli ariannol effeithiol a fframwaith cadarn ar gyfer adolygu a herio perfformiad ariannol; ac a oes gan yr awdurdod gynlluniau realistig i wneud yr arbedion sydd eu hangen ar gyfer 2014-15 a'i fod yn cymryd camau priodol i'w cyflawni.
6. Yng Nghyngor Sir Ddinbych (y Cyngor) rydym wedi dadansoddi amrywiaeth o ddata, gan gynnwys cyfrifon cyhoedddeg y Cyngor a'i ffurflen perfformiad i Lywodraeth Cymru ac Uned Data Llywodraeth Leol. At hynny, cyfwelwyd â nifer fach o aelodau allweddol o staff ac adolygwyd adroddiadau y mae'r Cyngor a'i bwylgorau wedi'u hystyried.

## Mae gan y Cyngor drefniadau rheoli ariannol da heb unrhyw ddiffygion uniongyrchol

7. Daethom i'r casgliad hwn o ganlyniad i'r canfyddiadau canlynol:
- mae gan y Cyngor hanes da o gyflawni arbedion a nodwyd o fewn y flwyddyn yn erbyn camau gweithredu arfaethedig a gymeradwywyd ganddo; ac
  - mae cynlluniau a threfniadau'r Cyngor ar gyfer cyflawni arbedion yn y dyfodol yn addas at y diben ac maent yn cael eu rheoli'n effeithiol.
8. Nodir ein casgliadau manwl yn **Atodiad 1** ac maent yn seiliedig ar y graddau y mae'r Cyngor wedi rhoi prosesau rheoli ariannol effeithiol ar waith sy'n ei helpu i sicrhau ei fod mewn sefyllfa ariannol sefydlog a fydd yn ei alluogi i barhau i weithredu yn y dyfodol a'r graddau y mae'n gweithredu'r prosesau hynny.

## Mae gan y Cyngor hanes da o gyflawni arbedion a nodwyd o fewn y flwyddyn yn erbyn y camau gweithredu arfaethedig a gymeradwywyd ganddo

9. Llwyddodd y Cyngor i nodi amrywiaeth o arbedion cylchol ac anghylchol yr oedd angen eu gwneud i wneud iawn am y diffyg cyllidebol rhwng 2011-12 a 2013-14, cynllunio ar eu cyfer a'u cyflawni. Nid oedd unrhyw arbedion nas nodwyd yr oedd angen eu datblygu pan gymeradwywyd cyllidebau 2011-12, 2012-13 a 2013-14 a chyflawnwyd gostyngiadau ac arbedion arfaethedig y Cyngor ym mhob un o'r tair blynedd.

## Mae cynlluniau a threfniadau'r Cyngor ar gyfer cyflawni arbedion yn y dyfodol yn addas at y diben ac maent yn cael eu rheoli'n effeithiol

10. Mae gan y Cyngor fframwaith corfforaethol effeithiol ar gyfer cynllunio ariannol a phrosesau rheoli ariannol effeithiol. Mae ganddo fframwaith ar gyfer adolygu a herio perfformiad ariannol a chynlluniau realistig i wneud yr arbedion sydd eu hangen ar gyfer 2014-15 ac mae'n cymryd camau priodol i'w cyflawni.

---

## Cynigion ar gyfer gwella

11. Nid oes unrhyw gynigion ar gyfer gwella nac unrhyw argymhellion sy'n deillio o'r adolygiad hwn.

# Atodiad 1

## Canlyniadau manwl ein hadolygiad

Tudalen 41

Llinellau ymholi allweddol	Canfyddiadau gwaith maes	Casgliadau
<b>Perfformiad rhwng 2011-12 a 2013-14</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>Nododd y Cyngor amrywiaeth o arbedion cylchol ac anghylchol er mwyn gwneud iawn am y diffygion yng nghyllidebau 2011-12, 2012-13 a 2013-14. Yn 2011-12 nododd y Cyngor arbedion ac arbedion effeithlonwydd gwerth £6,359 miliwn a llwyddodd i'w cyflawni'n llawn.</li><li>Yn 2012-13 nododd y Cyngor arbedion ac arbedion effeithlonwydd gwerth £3.4 miliwn a llwyddodd i'w cyflawni'n llawn. Cyflawnodd y Cyngor arbedion gwerth 99.3% gyda'r arbedion a oedd yn weddill yn ymwneud â rhesymoli argraffyddion, yn cael eu gohirio tan y flwyddyn ariannol ganlynol.</li><li>Ymddengys fod proses pennu cyllideb 2013-14 yn gadarn ac ni chafodd unrhyw feysydd arbed costau nas nodwyd eu cynnwys yn y gyllideb wreiddiol.</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>Mae gan y Cyngor hanes da o nodi ei ddiffyg cyllidebol blynyddol a chyflawni amrywiaeth o arbedion ac arbedion effeithlonwydd cylchol ac anghylchol.</li></ul>
<b>Cynllunio Ariannol Strategol</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>Datblygodd y Cyngor amrywiaeth o gynigion cyllidebol a oedd yn adlewyrchu Cynllun y Cyngor a'i flaenoriaethau. Mae'r fframwaith yn cynnwys ymgysylltu'n llawn ag Aelodau drwy fforymau fel gweithdai Cyllidebol i'r Aelodau.</li><li>Mae'r Cyngor wedi datblygu a chyhoeddi Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2012/2017. Cyhoeddodd y Cyngor ei Ddogfen Gyflawni Blwyddyn 2 (y Cynllun), adolygiad blynyddol o'i Gynllun Corfforaethol ar gyfer 2012-2017 (Cyngor sy'n Perfformio'n Dda, yn Agos at y Gymuned), ym mis Ebrill 2013. Mae'r Cynllun yn cydymffurfio â gofynion y Mesur Llywodraeth Leol i lunio Cynllun Gwella blynyddol. Mae'r Cynllun yn glir ac yn gryno, gan nodi'r hyn y mae'r Cyngor am ei gyflawni a sut y bydd yn gwneud hynny. Eglurir y rhesymeg dros ddewis Amcanion Gwella (Canlyniadau) yn gryno ond yn glir. Mae'r Cynllun hefyd yn egluro nodau'r Cyngor ar gyfer 2013-14 a'r mesurau y byddai'n eu defnyddio i werthuso llwyddiant wrth gyflawni ei amcanion.</li><li>Mae'r Cyngor wedi nodi'n glir y cyswllt rhwng ei Amcanion Gwella a'i gynllun ariannol tymor canolig a'i gynlluniau gwasanaeth unigol. Mae wedi nodi'r adnoddau sydd ar gael i helpu i gyflawni Amcanion Gwella yn 2013-14, o arian refeniw ac arian cyfalaf.</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>Mae fframwaith cynllunio ariannol strategol corfforaethol y Cyngor yn effeithiol ac yn helpu i gyflawni gweledigaethau corfforaethol, nodau ac amcanion gwella.</li></ul>

Llinellau ymholi allweddol	Canfyddiadau gwaith maes	Casgliadau
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae gan y Cyngor fframwaith rheoli perfformiad ar waith a ddefnyddir ganddo i adolygu a monitro'r cynnydd a wnaed o ran cyflawni amcanion y Cynllun Corfforaethol, blaenoriaethau'r cynllun gwasanaethau, mesurau perfformiad, cyflawniadau a meysydd i'w gwella.</li> <li>Drwy ei broses her gwasanaeth a phennu cyllideb flynyddol caiff cyllidebau eu pennu yn unol â blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol.</li> <li>Mae gan y Cyngor nifer o bolisiâu sy'n cefnogi ei drefniadau cynllunio ariannol, gyda chyfrifoldebau yn cael eu pennu o ran gosod y gyllideb, ei monitro ac adrodd arni.</li> <li>Mae gan y Cyngor Gynllun Ariannol Tymor Canolig (y Cynllun) a groesgyfeirir â'i Amcanion Gwella. Mae'n cwmpasu cyfnod o bum mlynedd. Mae fersiwn 2014 yn nodi sut yr ymdrinnir â'r bwlc sy'n weddill mewn arbedion yn 2015/16 a thu hwnt, er bod diffyg eglurder Llywodraeth Cymru ynghylch lefel y gostyngiadau yn y gyllideb yn 2015 a thu hwnt yn rhwystro'r Cyngor rhag cynllunio.</li> <li>Dull y Cyngor o bennu ei gyllideb refeniw fu lleihau costau'n gynydrannol yn seiliedig ar gynigion arbed o wasanaethau a chyllidebau corfforaethol. Mae'r broses wedi llwyddo yn y gorffennol ond mae'r Cyngor yn cydnabod nad yw'n gweithio mwyach. Ar gyfer 2015-16 caiff gwasanaethau eu hadolygu o dan y rhaglen Rhyddid a Hyblygrwydd er mwyn arbed £12 miliwn dros y ddwy flynedd nesaf. Dyma'r newid mwyaf arwyddocaol i'r broses gyllidebol a bydd yn canolbwytio ar yr hyn y mae gwasanaeth yn ei wneud, faint mae'n ei gestio a bydd yn ceisio dadansoddi p'un a yw'r broses o ddarparu gwasanaeth yn statudol, yn gyson â blaenoriaeth gorfforaethol neu'n ddewisol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae dull y Cyngor o bennu ei gyllideb refeniw wedi llwyddo yn y gorffennol ond mae'r Cyngor yn cydnabod nad yw'n gweithio mwyach. Ar gyfer 2015-16, caiff gwasanaethau eu hadolygu o dan y rhaglen Rhyddid a Hyblygrwydd.</li> </ul>

Llinellau ymholi allweddol	Canfyddiadau gwaith maes	Casgliadau
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Caiff y Cynllun ei adolygu bob blwyddyn drwy ei broses her gwasanaeth a'r ymgynghoriad ar bennu'r gyllideb a gynhelir bob blwyddyn. Mae pob gwasanaeth yn destun her gwasanaeth blynnyddol lle mae'r Prif Swyddog Gweithredol, yr Arweinydd, Cyfarwyddwyr Strategol a chadeiryddion craffu yn rhoi her sylfaenol i bob gwasanaeth o ran ansawdd gwasanaethau a'r ffordd y'u darperir. Mae'r her gwasanaeth yn ffordd allweddol o nodi cyfeiriad gwasanaethau yn y dyfodol a'r risgau a wynebir ganddynt yn y dyfodol.</li> <li>Mae fframwaith cynllunio ariannol y Cyngor yn cynnwys ymgynghori'n eang ag aelodau trwy weithdai cylidebol. Mae'r aelodau yn chwarae rhan weithredol ac yn herio cynigion.</li> <li>Mae proses sefydledig ar gyfer cymeradwyo cylideb fanwl a phennu'r dreth gyngor ar gyfer y flwyddyn ganlynol.</li> </ul>	
Rheoli Ariannol	<p>Mae trefniadau rheoli ariannol y Cyngor yn gadarn ac maent yn cael eu rheoli'n effeithiol.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae Rheoliadau Ariannol y Cyngor yn cynnwys adran ar gyllidebau sy'n ymdrin â chynllunio ariannol a chyllidebu; rheolaeth gyllidebol; trosglwyddo a chyllidebau atodol eithriadol. Yr Aelodau sy'n gyfrifol am bennu Cyllideb yr Awdurdod, yn dilyn cyngor gan Swyddogion y Cyngor. Mae hwn yn gyfrifoldeb statudol. Rhaid i'r Cyngor bennu cylideb fantoledig; rhaid bod digon o arian ar gael (a dderbynir yn y flwyddyn ariannol dan sylw) i gyfateb i'r gwariant disgwyliedig. Bydd yr Aelodau yn penderfynu sut y dyrennir adnoddau rhwng Cyfarwyddiaethau, canolfannau adnoddau a'r polisiau cysylltiedig. Ar y cyd â'r Pennaeth Cyllid ac Asedau, mae Cyfarwyddwyr unigol yn gyfrifol am yr agweddau mwy manwl ar bennu'r gyllideb.</li> <li>Nid oes gan y Cyngor bolisi corfforaethol ar gynhyrchu incwm/ailgodi ond mae sawl enghraifft o bolisiau o'r fath ar lefel gwasanaeth.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae trefniadau rheoli ariannol y Cyngor yn gweithio'n effeithiol. Rhoddyd trefniadau ar waith i sicrhau bod y gyllideb yn cael ei phennu, ei monitro a'i hadrodd yn effeithiol.</li> <li>Nid oes gan y Cyngor bolisi corfforaethol ar gynhyrchu incwm/ailgodi ond mae sawl enghraifft o bolisiau o'r fath ar lefel gwasanaeth.</li> </ul>

Llinellau ymholi allweddol	Canfyddiadau gwaith maes	Casgliadau
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Rhoddwyd system rhagamcanu, monitro ac adrodd newydd ar waith. Gelwir hyn yn Cynllunio Cydweithredol. Mae'n sicrhau bod dull mwy cyson o reoli'r gyllideb ar draws y Cyngor drwy goladu gwybodaeth gyllidebol ar system ar-lein a lleihau'r angen i ddefnyddio gwahanol daenlenni o fewn yr adrannau gwasanaeth amrywiol.</li> <li>Anfonir adroddiad misol ar y gyllideb i'r Cabinet. Mae'r adroddiadau monitro a gyflwynir i'r Cabinet yn dangos yr alldro rhagamcanol ar gyfer y flwyddyn (yn hytrach na'r sefyllfa ar adeg benodol) o gymharu â'r gyllideb wreiddiol. Mae'r adroddiadau hyn yn cynnwys manylion unrhyw amrywiad sylweddol mewn gwariant ynghyd â chamau cywiol.</li> </ul>	
Llywodraethu Ariannol	<p>Mae trefniadau llywodraethu ariannol y Cyngor ar gyfer adolygu a herio perfformiad yn gadarn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Fel y Rheoliadau Ariannol mae terfynau cymeradwyo y cytunwyd arnynt ar gyfer trosglwyddiadau, gan ddibynnu ar y symiau a ph'un a ydynt yn cael eu trosglwyddo o fewn gwasanaethau neu rhwng gwasanaethau.</li> <li>Caiff Penaethiaid Gwasanaethau eu dwyn i gyfrif. Caiff deiliaid cyllideb (Penaethiaid Gwasanaeth) eu dwyn i gyfrif gan y Cabinet bob mis ac mae'n ofynnol iddynt gyflwyno ffurflenni misol ac esbonio gorberfformiad a thanberfformiad mewn perthynas â'r gyllideb.</li> <li>Cyflwynir cyfrifon rheoli cyfnodol (ar gyfer y gyllideb refeniw a gwaith datblygu cyfalaf) i'r Cabinet a'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.</li> <li>Mae gan y Cyngor hanes da o gofnodi perfformiad cyllidebol yn gywir a chyflawni'r arbedion y cytunwyd arnynt.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae gan y Cyngor fframwaith cadarn ar gyfer adolygu a herio perfformiad ariannol.</li> </ul>

Llinellau ymholi allweddol	Canfyddiadau gwaith maes	Casgliadau
<b>Cynlluniau Arbedion Cyfredol 2014-15</b>	<p>Mae cynlluniau arbedion cyfredol y Cyngor ar gyfer 2014-15 yn addas at y diben ac maent yn cael eu rheoli'n effeithiol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r Cynllun yn rhoi ystyriaeth gynhwysfawr a rhesymol i oblygiadau tymor hwy cyfraddau llog, y mynegai prisiau a dyraniadau demograffig, mentrau polisi gan y Cyngor a'r Llywodraeth ac ymrwymiadau hysbys na ellir eu hosgoi. Mae'r Cyngor o'r farn bod ei drefniadau cadarn yn cael eu tanseilio gan ddifyg eglurder ac amseroldeb setliadau ariannol yn y byrdymor a'r tymor canolig, gan Lywodraeth Cymru.</li> <li>Ymgorfforodd Cyllideb Refeniw 2014-15 dybiaethau darbodus a rhesymol, fel tybio chwyddiant cyflogau o 1.2%.</li> <li>Mae cyfanswm yr arbedion targed ar gyfer 2014-15, sef £8.5 miliwn, wedi'i nodi. Gwnaed tybiaethau rhesymol wrth nodi'r diffyg ariannol/targed arbedion ar gyfer 2014-15.</li> <li>Mae effaith galw cynyddol am wasanaethau wedi'i chostio, yn arbennig pwysau na ellir eu hosgoi oherwydd y galw cynyddol am wasanaethau Gofal Cymdeithasol.</li> <li>Caiff cyllideb y Cyngor ei monitro bob mis gan yr Uwch Dîm Arwain a'r cabinet. Caiff 'arbedion' eu monitro fel mynegiant o'r arbedion blynnyddol a gyflawnwyd. Dros y tair blynedd diwethaf, cyflawnwyd dros 90% o'r arbedion gofynnol erbyn diwedd yr ail chwarter. Cyflwynir adroddiadau ar y gyllideb bob chwe mis i'r Cyngor llawn gydag unrhyw ddiffygion mewn arbedion yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet yn y cyfarfod nesaf o'r Cyngor llawn.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae cynlluniau arbedion ac arbedion effeithlonrwydd y Cyngor ar gyfer 2014-15 yn addas at y diben, yn cael eu rheoli'n effeithiol ac yn debygol o gael eu cyflawni.</li> </ul>

Llinellau ymholi allweddol	Canfyddiadau gwaith maes	Casgliadau
	<ul style="list-style-type: none"><li>Mae Cynllun Arbedion 2014-15 yn un CAMPUS (cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol, synhwyrol): mae Cynllun Arbedion 2014-15 yn benodol; mae'n esbonio'n glir lle y caiff arbedion eu gwneud ac yn cynnwys targedau arbedion ar gyfer pob eitem; mae Cynllun Arbedion 2014-15 yn fesuradwy; mae'r Cyngor wedi asesu effaith yr arbedion, wedi gwerthuso'r risgiau ac wedi ystyried cynlluniau a threfniadau lliniaru er mwyn mesur ac olrhain arbedion; ac mae Cynllun Arbedion 2014-15 yn heriol ond gellir ei gyflawni.</li><li>Mae Cynllun Arbedion y Cyngor ar gyfer 2014-15 yn rhoi sylw priodol a pherthnasol i'r pwysau ariannol sy'n ei wynebu. Er gwaethaf setliad grant heriol iawn gan Lywodraeth Cymru, mae'r Cyngor wedi pennu cyllideb fantoledig ar gyfer 2014-15 sy'n cynnwys cynnydd o 3.5 y cant yn y dreth gyngor ac arbedion o £8.5 miliwn.</li><li>Mae performiad hanesyddol yn awgrymu y bydd y Cyngor yn cyflawni ei darged ar gyfer arbedion. Nid oes unrhyw beth i awgrymu na ellir sicrhau'r gostyngiadau/arbedion arfaethedig ar gyfer 2014-15. Dros y tair blynedd diwethaf, cyflawnwyd dros 90% o'r arbedion gofynnol erbyn diwedd yr ail chwarter.</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>Mae Cynllun Arbedion 2014-15 yn un CAMPUS (cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol, synhwyrol).</li></ul>



**Wales Audit Office**  
**24 Cathedral Road**  
**Cardiff CF11 9LJ**

Tel: 029 2032 0500  
Fax: 029 2032 0600  
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: [info@wao.gov.uk](mailto:info@wao.gov.uk)  
